# Harri Williams – adarydd rhwystredig?

**Bywyd a gwaith Harri Williams (1913 – 1983).**



Ganed Harri Williams yn Anfield, Lerpwl. Collodd ei dad yn faban - y Capten Richard Williams a fu farw ar y môr yn Half Assini, Ghana. Derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol Anfield Road, yna Ysgol Llanallgo wedi symud i Farian Glas, Ynys Mon i fyw gyda'i nain. Wedi dychwelyd i Lerpwl parhaodd gyda'i addysg yn y 'Collegiate School'. Gadawodd yr ysgol ym 1929 a mynd i weithio fel clerc yn swyddfa Silcocks yn ardal y dociau. Yn 1934 fe'i derbyniwyd i Goleg Santes Catherine Rhydychen i baratoi ar gyfer y Weinidogaeth. Oddi yno aeth i Goleg y Bala i ddilyn y cwrs bugeiliol.

Bu farw'r Athro Harri Williams yn sydyn fore Llun Ionawr 31, [1983] yn 69 mlwydd oed. Brwydrodd ar hyd ei oes yn erbyn afiechyd blin a threuliodd fisoedd mewn ysbytai. Cofnododd ei brofiadau yno yn y gyfrol Ward 8 (1963). Ond ni lwyddodd gwendid corfforol i lesteirio ei egni a'i ymroddiad i bregethu, i ddarlithio ac i lenydda — gorchwylion a gyflawnodd hyd yr eithaf hyd ddiwedd ei oes.

Yn ei hoff Sir Fôn, yn y Marian-glas, yr oedd ei wreiddiau, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i ieuenctid yn Lerpwl. Nid adnabu ei dad, capten llong a foddwyd oddi ar orllewin Affrica yn fuan wedi iddo ef gael ei eni, a bu ei fam farw cyn iddo gyrraedd ei arddegau. Fe'i magwyd ef a'i frawd a'i chwiorydd gan fodryb yn Lerpwl.

Bu'n ddisgybl yn ysgol enwog y Collegiate ac yna aeth am bum mlynedd i weithio mewn swyddfa. I'r cyfnod hwn yn ddiau y dylid priodoli ei ddiddordeb parhaol mewn economeg a mathemateg. Fe'i perswadiwyd gan ei weinidog i fynd yn syth o'r swyddfa i Brifysgol Rhydychen i ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth. Aeth yno yn 1934 i astudio Diwinyddiaeth yng Nghymdeithas y Santes Catherine gan arbenigo mewn athroniaeth crefydd dan gyfarwyddyd athro adnabyddus, A. M. Farrer.

Bu'n weinidog yn Nhywyn, Meirionnydd o 1939 nes 1948. Yn y cyfnod hwn treuliodd ddwy flynedd yn ysbytai Machynlleth a Thalgarth yn dioddef o'r diciau a ffrwyth ei brofiad yno yw ei gyfrol *Ward 8* a ddaeth yn agos at gipio'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol, Llanelli, 1962. Ym 1948 symudodd i

fod yn weinidog yn Waunfawr, Sir Gaernarfon cyn symud i ofalu am y Tabernacl a Hirael Bangor ym 1955. Bu hefyd yn gofalu am yr adran fugeiliol yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth

Yn y cyfnod cynnar yma dechreuodd ysgrifennu yn Gymraeg ac yn y gyfrol 'Oni Threngodd Duw?' (1975) gwelir rhai o'i erthyglau cynharaf yn ogystal a rhai diweddarach sy'n amlygu ei ddiddordeb dwfn yn natblygiadau diweddaraf y cyfnod mewn diwinyddiaeth ac athroniaeth a'i awydd i'w cyflwyno i ddarllenwyr y Gymraeg. Wedi blwyddyn yng Ngholeg y Bala ar ôl graddio gydag anrhydedd mewn diwinyddiaeth yn Rhydychen, aeth yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd i Dywyn, wedi hynny i Waunfawr ac yna i Fangor cyn cael ei benodi yn 1964 i'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, i fod yn bennaeth cyntaf yr Adran Fugeiliol — adran a ganolbwyntiai ar baratoi myfyrwyr ar eu blwyddyn olaf ar gyfer y weinidogaeth. Ef oedd yn bennaf gyfrifol an gwrs sydd wedi ei gydnabod droeon fel un hynod werthfawr a chynhwysfawr ar gyfer y gwaith. Yn ogystal a'r dyletswyddau hyn darlithiai ar Ddiwinyddiaeth Fodern a'r Foeseg i fyfyrwyr ar gyfer gradd a diploma'r Brifysgol. Gwelir peth o ffrwyth y llafur hwn yn ei gyfrolau, 'Y Cristion Cyfoes' (1967); 'Bonhoeffer. (1981) yn y gyfres 'Y Meddwl Modern', a `Duw a Phob Daioni (1978). Fe'i cofnodir ar Wicipedia fel "Awdur Cymraeg a enillodd y Fedal Ryddiaith ym 1978 ."

Ar hyd ei yrfa bu'n eang iawn ei ddiddordebau a mynnai gysylltu diwinyddiaeth a diwylliant yn gyffredinol, ac yn arbennig â llenyddiaeth ac â cherddoriaeth. Darllenai'n eang ymysg awduron cyd-genedlaethol ac adlewyrchid hyn yn y cyfrolau a'i dygodd yn ddiau i sylw cylch ehangach o ddarllenwyr, sef 'Y Ddaeargryn Fawr', cyfrol ar ffurf hunangofiant y meddyliwr mawr o Ddenmarc, Kierkegaard, a 'Deunydd Dwbl', (1982), nofel am Dostoiefsci y Rwsiad. Ennillodd y gyntaf glod uchel pan ddyfarnwyd iddo'r Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Gened-laethol Caerdydd 1978, ac er i'r ail fethu a chipio'r wobr am nofel yn Eisteddfod Machynl-leth yn 1981 fe'i galwyd gan D. Tecwyn Lloyd, un o'n beirniaid llenyddol praffaf, yn gamp-waith. Yn y 1950au datbygodd ddiddordeb mewn adarydda.

Âi ei ddiddordeb mawr mewn cerddoriaeth yn ôl i'w blentyndod yng nghwmni ei frawd, W. Albert Williams. Apwyntiwyd ef yn Drefnydd Cerdd Sir Aber ni teifi ar ddiwedd y rhyfel byd diwethaf, ond bu farw cyn cael cychwyn ar ei waith. Roedd hi'n hynod addas mai Cymdeithas Lyfrau Ceredigion a gyhoed-dodd dwy gyfrol Harri Williams ar gerddorion, 'Chwech o Gewri Cerdd' (1962) a `Rhagor o Gewri Cerdd' (1967). Cafodd plant llawer cenhedlaeth flas ar y cyfrolau hyn.

Eithr ni fu ei ymlyniad diwyro wrth lenydda yn foddion i ymgilio rhag pobl. I'r gwrthwyneb, ymddiddorai'n fawr mewn bob' a'u cynefin. Gwelir hyn yn ei lyfrau taith, `Crwydro Cernyw' (1971) a `Crwydro'r Ynys Hir' (1968). Ac, wrth gwrs, credai'n gryf mai bugeilio pobl oedd swyddo-gaeth bwysicaf y gweinidog. Yn un o'i ysgrifau dyfynna ddiwinydd a ddywedodd: "Dywedwch wrthyf beth yw eich syniad am ddyn, ac mi ddywedaf wrthych pa fath o fugail ydych." Ei gonsyrn am bobl a'i gwnaeth yn awdur mor llwyddiannus wrth gyflwyno syniadau crefyddol i leygwyr. Mae'r ddawn hon o boblogeiddio athrawiaethau dyrys a'u cyflwyno i eraill yn hynod o brin, ac yn sicr llwyddodd i gyrraedd cynulleidfa eang o ddarllenwyr: e.e. gwerthwyd yr holl stoc o'i gyfrolau, 'Y Ddaeargryn Fawr' a `Duw a Phob Daioni', yn fuan wedi eu cyhoeddi. Ef ond odid oedd ein hawdur mwyaf poblogaidd yn ei feysydd dewisedig.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cynyddodd ei ddiddordeb yn hanes diwylliant a chrefydd Cymru yn y ganrif ddiwethaf. Cyhoeddwyd ei Ddarlith Davies `Duw, Daeareg a Darwin' yn gyfrol ar ddydd ei thraddodi ym Mhenygroes, Sir Gâr yn 1979. Ychydig ddyddiau cyn ei farw bu'n darlithio ar John Phillips (brodor o Bontrhydfendigaid), sylfaenydd y Coleg Normal, Bangor, yn y coleg hwnnw ar achlysur dathlu 125 mlynedd ei sefydlu, a bwriadai gyhoeddi cofiant llawn iddo. Roedd hefyd yn ddarlledwr cyson ar amryfal bynciau a chyfrannodd lu o sgriptiau i'r radio ar hyd y blynyddoedd. Yn ddiweddar paratodd sgriptiau ar Kierkegaard a Luther ar gyfer S4C.

**Mae'r ysgrif hon yn cyflwyno nodiadau ganddo a ddaeth i'r fei yng nghartref ei deulu flynyddoedd lawer ar ôl ei farw ac na chawsant erioed eu cyhoeddi tan rwan. Ei nith Catrin Evans fu'n gyfrifol am rhoi trefn ar rhain a'u trawsgrifio. Maent yn olrhain ei daith bersonol i fyd yr adar o'r cychwyn, y broses o ddysgu amdanynt, a'i fyfyrdodau yn ei sgil. Fe ychwanegir lluniau a blychod gwybodaeth at y testun fel bo'n briodol.**

# 1. CYCHWYN

*"Y lle bum yn gware gynt*
*Mae dynion na'm hadwaenant"*

*O adar fil dewraf wyd* (78)

**Tua'r lle bu dechre'r daith**

Nid wyf yn sicr iawn pa bryd y dechreuais o ddifrif.

Cofiaf fy mod yn arfer hel nythod adar pan oeddwn yn hogyn erstalwm yn y wlad, ac y mae'n rhaid felly fy mod yn gwybod y pryd hwnnw am nodweddion rhai o'r adar mwyaf adnabyddus. Gwyddwn ymhle i chwilio am nyth robin goch, neu ddryw, neu asgell fraith. Gwyddwn mae ar ddibyn uwchben y môr yr oedd cael hyd i nyth y wylan, ac mai ar gae yn ymyl y glannau yr oedd ffeindio nyth cornchwiglen. (Yr oedd digon o gornchwiglod y dyddiau hynny, a pherffaith hawl a rhyddid i hel a bwyta'u hwyau )

Ond ychydig o'r wybodaeth a gesglais am adar a arhosodd gyda mi wedi inni symud o'r wlad i fyw pan oeddwn yn ddeg oed. Parhawn i gofio mai wyau glas oedd gan y fronfaith a'r fwyalchen, ac yn hollol groes i'r hyn y gellid ei ddisgwyl oddi wrth liwiau'r adar eu hunain, cofiwn mai sbotiau duon oedd ar rai'r fronfraith, a sbotiau brown ar rai'r fwyalchen. Gwyddwn fod y gog a'r wennol yn ymwelwyr cyson â ni yn y gwanwyn, ond ni wyddwn am y llu o adar eraill a ddeuai am dro bob haf i'n gwlad. Gwyddwn fod gwylanod u'w cael yn eu cannoedd ar y traethau, ond ni chofiwn ddim am y gwahanol <u>fathau</u> o wylanod. I mi, gwylan oedd gwylan, a dyna ben arni. Ac ni wyddwn ychwaith am y degau o adar y tywod a chwiliau am eu bwyd yn ymyl y tonnau, creaduriaid bach prysur a diwyd odiaeth, a chyda'r mwyaf deniadol o'r holl adar.

Y mae'n rhaid felly, mai ychydig iawn o ddiddordeb a gymerwn mewn adar y pryd hwnnw, a rhyfeddaf yn awr imi fod mor ddall a dididdordeb. A phan ddeuthum yn ôl i'r wlad i fyw ymhen pumtheng mlynedd, ni enynwyd fawr ddim ar fy niddordeb ynddynt, ac ni wyddwn fawr amdanynt. Gallwn wahaniaethu rhwng robin goch a.r dryw bach, rhwng aderyn y tô a thitw-tomos-las, a rhwng bronfraith a mwyalchen. Ond ni wyddwn sut i adnabod siani lwyd, a phan welwn un tybiwn mae'n siwr mai aderyn y tô ydoedd. Ni wyddwn am y titw fawr, a'r streipen ddu i lawr ei bol yn help i'w gwahaniaethu oddi wrth y titw- tomos las. A beth am gan yr adar? Gallwn innau fel pawb arall

adnabod dau nodyn y gog yn y gwanwyn, a hwtio'r ddylluan gyda'r nos. Ond ni wyddwn fod mwy nag un math o ddylluan. Yr unig un y gwyddwn i amdani oedd yr un a ddisgriir gan Williams Parry:

*Ni bydd eu Lladin, ar fy llw,*
*Na llon na lleddf – Tw-whit, tw-hw!*

Yr oedd gennyf syniad go lew am gân y fronfraith, am y rheswm fy mod wedi clywed adroddiad rhywdro yn dynwared y gân; adroddiad yn dweud hanes rhyw frawd a ddychmygai glywed yr aderyn yn galw arno; ' Wil Phylip! Wil Phylip! Wil Phylip! 'Pan glywn innau'r 'Wil Phylip,' gwyddwn mai ar fronfraith yr oeddwn yn gwrando.

Eithr enynwyd ychydig ar fy niddordeb mewn adar pan fum ar fy ngwely'n wael mewn sanatorium am ddeunaw mis. Deuai'r adar yn un haid at ddrws fy 'chalet' i chwilio am friwsion, a dysgais adnabod rhai ohonynt. Dysgais wahaniaethu rhwng y ditw fawr a'r ditw-tomos-las, rhwng yr asgell fraith fenywaidd ac aderyn y tô, a'r siani lwyd. A deuthum i sylweddoli fod i adar eu cymeriad a'u nodweddion priod eu hunain. Gwelais yn fuan aderyn mor bowld oedd yr asgell fraith. Ef fyddai'r ymladdwr gorau am y briwsion, ac yn aml iawn byddai ei lais, a chyffyrddiad ysgafn ei draed wrth iddo neidio ar gynfas y gwely, yn fy neffro ben bore. Sylweddolais mor heini ac acrobatig oedd y ditw, yn hongian a'i phen i lawr ar ddarn o asgwrn a grogai oddi ar fondo'r ysbyty. Deuai'r robin goch heibio weithiau i'w ddychryn oddi yno, ond ofer fyddai ymgais y robin i fwynhau dim ar yr asgwrn. A'i adennydd yn cyflymu, ymdrechau'n galed i aros yn ei unfan yn yr awyr er mwyn pigo darn o'r cig, ond ofer ei gais. Ac wedi iddo flino, ac ehedeg ymaith, deuai'r ditw'n ôl, a landio'n heini ar yr asgwrn, a cherdded yn ddeheig drosto i gyd, a mwynhau'r seigiau breision heb neb i darfu arni. Y ditw, yn ddiau, yw'r acrobat ymhlith yr adar, a byddwn wrth fy modd yn ei gwylio. Efallai na fuaswn mor hoff o'r ditw fawr pe gwyddwn y pryd hynny am ei chreulondeb hi, a'i hoffter o fwydo ar ymennydd adar bychain eraill. Ond dyna ni, y mae creulondeb yn beth cyffredin iawn ymhlith y creaduriaid byw, ac mi ddywedodd rhyw fardd ond calon y gwir pan soniodd am natur yn goch mewn dant a phawen.

Bu gwylied yr adar yn gymorth i'r oriau meithion a'r dyddiau undonnog fynd heibio yn yr ysbyty, ond wedi dychwelyd adref, anghofiais amdanynt eto i raddau, er imi'n awr ddechrau gosod ambell asgwrn i grogi oddi ar fondo yn ymyl ffenestr y gegin er mwyn cael hwyl yn gwylied campau'r ditw, ac ymdrechion ofer y robin goch.

Dau beth a barodd imi ddechrau ymhel o ddifif ag adar. Yn un peth, cefais anrheg o sbienddrych gan ewythr imi, hen sbienddrych a fu'n eiddo i'm tad pan oedd yn gapten llong. A dyma fyd newydd yn agor o'm blaen. Fel Elis Wyn o'r Las Ynys, gallwn yn awr 'weled y pell yn agos, a phethau bychain yn fawr.' A deuthum i werthfawrogi'n well gân Williams Parry, "Sgyfarnog trwy Sbienddrych" a gweld ei hergyd yn gliriach:

*Pori y mae ar ael y bryn:*
*Y diniweitiaf dan y nef*
*Yn pori'n dawel a difraw*
*Ei thamaid melys yn ei bryd.*
*Ac O! anhygoel ydyw hyn,*
*Fe saif y bryn ar sgwâr y dref*
*Ymhlith segurwyr conglau'r stryd,*
*Ac y mae cwn y lle gerllaw.*

**Y Man Cychwyn**



*Er fy syndod, gwelais fod ei fol yn wyrdd, a sylwais fod y big yn llydan a chryf. Llinos werdd!*
**Llinos werdd gan Bethan V. Davies**

Cofiaf y tro cyntaf imi fynd a'r sbienddrych gyda mi i'r ardd. Gwelwn aderyn ar wifren y trydan, aderyn llwyd, di-liw, a'i gân yn un nodyn trist, dolefus. "Iar yr asgell fraith," meddwn wrthyf fy hun. Ac eto yr oedd braidd yn fwy nag asgell fraith, a chodais y sbienddrych i edrych arno. Er fy syndod, gwelais fod ei fol yn wyrdd, a sylwais fod y big yn llydan a chryf. Llinos werdd! Ni fuaswn wedi cymryd sylw ohoni na'i adnabod oni bai fod yr ysbienddrych gennyf. Yr oedd hwn nid yn unig yn gwneud y 'pell yn agos a phethau bychain yn fawr,' ond hefyd yn gwneud y di-liw yn lliwgar. Dechreuais edrych drwyddo ar y blodau a'r dail yn yr ardd, ac nis gwelais hwy erioed o'r blaen, ac nid wyf yn credu imi erioed eu gweld wedyn yn edrych mor lliwgar a phrydferth. Ac o hyn ymlaen yr oedd y sbienddrych yn gydymaith parhaus imi


yn yr ardd, a phan awn am dro, a dechreuais gael blas anghyffredin ar ddod i adnabod y gwahanol adar a welwn.

Yr ail beth a barodd imi ymddiddori o ddifrif yn yr adar ydoedd imi symud i fyw i ran arall o'r wlad. Yr oeddwn yn awr mewn tŷ yn sefyll ar ei ben ei hun, a chaeau a choed o'i amgylch, ac mewn ardal fynyddig, a'r bryniau yn gwarchod yn gadarn drosti. Heb fod ymhell o'r tŷ, rhyw led hanner dwsin o gaeau i ffwrdd, yr oedd y mynydd agored, gyda'i rug a'i goed llus, a'i frwyn a'i welltglas bras. Ac uwchben yr oedd creigiau ysgythrog ac ambell i hen chwarel wedi cau, gyda'r rwbel yn bentyrau blêr, yn hongian ar ochrau'r mynydd. Dyma ardal yn cynnwys maes a gardd, mynydd a chraig, yn ymyl eu gilydd, a digon o adar o bob math yn trigo ac yn nythu ynddi. Ac heb fod ymhell yr oedd y môr, a thraethau eang culforoedd tywodlyd, a chreigiau serth, yn gartref i amrywiaeth cyfoethog o adar. Ac yn yr ardal hon yr oedd yn byw gyfeillion caredig yn ymddiddori mewn adar, ac yn barod i roddi pob cyfarwyddyd i brentis anwybodus fel myfi.

A dechreuais arni o ddifrif. Prynnais lyfrau i'm helpu i adnabod yr adar, a benthyciais eraill o lyfrgelloedd, yn sôn am adar ac adarwyr. Awn a'r ysbienddrych gyda mi i bob man, a byddwn ambell dro yn berygl bywyd i fodurwyr a cherddwyr ar yr heol fawr os byddai aderyn dieithr yn gwibio'n sydyn o'm blaen a minnau wrth yr olwyn. Ac y mae arnaf ofn imi fod yn fwrn ac yn flinder lawer tro i'm teulu. Cefais beth cysur pan welais y cyflwyniad ar ddechrau un llyfr adnabyddus ar adar, a ysgrifennwyd gan dri o adarwyr enwog: "*To our long-suffering wives*." O leiaf nid myfi oedd yr unig un oedd wedi peri blinder i eraill drwy ei hoffter o adar!

Ni synnais o gwbl o ddarllen fod mwy o astudio ar adar nag ar unrhyw fath arall o greaduriaid byw. Y maent yn greaduriaid mor hoffus,(o leiaf maent yn ymddangos felly i mi) ac maent mor agos atom, ac mor hawdd u'w gweld ac u'w clywed, ac y mae'r fath amrywiaeth yn eu plith, mewn lliw, mewn cân, ac mewn ymarweddiad.

Ac y mae astudio'r adar ar gynnydd mawr yn ein dyddiau ni. Cyfarfum droeon yn ddiweddar â bechgyn ieuanc o leoedd fel Lerpwl a Birmingham, yn crwydro'n unig hyd draethau a bryniau Môn ac Arfon, yn gwylied ac yn astudio gyda brwdfrydedd a diddordeb anghyffredin. Holi sut y bu iddynt ddechrau a chael fod ambell un wedi ei ysbrydoli gan athro ( bendith arno! ) yn yr ysgol, ac fod llawer a'u diddordeb wedi ei ennyn gan raglenni natur ar y radio a'r teledu. Diddorol yw darllen yn ei lyfr safonol ar y Ffwlmar, y rhestr a rydd James Fisher




o alwedigaethau'r rhai a'i cynorthwyodd yn ei ymchwil. Yn eu plith ceir pysgotwyr, plismyn, postmyn, llongwyr, milwyr, awyrennwyr, ffermwyr, beirdd, athrawon, gweinidogion, meddygon, deintyddion, nyrsus, garddwyr, llyfrgellwyr, twrneiod, siopwyr, carafanwyr, aelodau seneddol, cryddion, seiri meini, plant ysgol ac efrydwyr prifysgol. Ac eto, cyfarfûm â mab fferm yn byw yn ymyl Llyn Coron yn Sir Fôn, na wyddai enw'r un o'r gwahanol fathau o hwyaid gwylltion a fydd yn heidio ar y llyn hwnnw yn y gaeaf.

Erbyn hyn y mae digonedd o lyfrau diddorol a deniadol ar adar i'w cael yn y Saesneg, a llawer o werthu a darllen arnynt. Nid yn unig llyfrau ar adar yn gyffredinol, yn gymorth u'w hadnabod a'u gwylied, ond ambell lyfr yn trafod un math arbennig o aderyn. Cafwyd yn ddiweddar astudiaethau manwl a threiddgar mewn cyfrolau unigol, o'r robin, y dryw, y ffwlmar a'r goeswerdd (*greenshank*) i enwi dim ond pedwar ohonynt. Y mae ambell adarwr wedi treulio blynyddoedd maith i wneud dim ond astudio un math o aderyn, a thrwy hynny wedi ychwanegu llawer at ein gwybodaeth o'r aderyn hwnnw, ac wedi dod a rhai ffeithiau syfrdanol o newydd amdano i'r golwg. Pwy a feddyliai fod robin goch neu ddryw bach yn ddigon o destun astudiaeth am flynyddoedd lawer, ac yn ddigon o bwnc i lenwi cyfrol sylweddol? Tua chanrif yn ôl, haerai un adarwr enwog o Sgotland, nad oedd yn bosibl llunio cyfrol gyfan am y robin goch heb iddi fynd yn undonog ac anniddorol. Ond gwrthbrofwyd ei haeriad gan David Lack. Y mae ei lyfr ef ar fywyd y robin goch wedi gwerthu wrth y miloedd, ac i'w gael erbyn hyn am hanner–coron yng nghyfres y Pelican.

Ychydig iawn, ysywaeth, a gawsom o lyfrau Cymraeg ar adar. Yr unig gyfrol i'w chyhoeddi yn ddiweddar hyd y gwn, yw Adar y Glannau gan T G Walker. Dyma gyfrol odidog yn sôn am yr adar y gellir eu gweld ar draethau Cymru, ac yn ernes, gobeithio, o lawer cyfrol tebyg eto yn y dyfodol.

# 2. CYFRIF


*“ Amlach ydynt nag y gellir eu rhifo. “* – Y Salmydd.



A chael rhyw gyffro pleserus o sylweddoli fy mod wedi ychwanegu un arall at y stôr o adar yr oeddwn wedi eu gweld a dysgu eu hadnabod
**Llun ‘hutan y dŵr’: Alun Williams**

Dro’n ôl, yr oeddwn allan gyda’r car yn chwilio am adar yn Sir Fon, ac ar y ffordd adref o Gob Malltraeth, penderfynais droi ar y dde i lawr y lôn gul sy’n arwain at lannau Menai gyferbyn â Chaernarfon. Nid oeddwn wedi gweld dim ym Malltraeth nas gwelswn o’r blaen. Yr oedd yr heidiau o adar y tywod yn rhy bell oddi wrthyf imi fedru gwahaniaethu rhyngddynt yn glir iawn, nac adnabod ond y rhai mwyaf cyfarwydd fel y morhedydd, (*ringed plover*)  pioden y môr, (*oyster catcher*)  llygad yr ŷch, (*dunlin*) a’r goesgoch. (*redshank*) Ond yn awr, cyn gynted ag imi gyrraedd glannau Menai, gwelais adar bach prysur nad oeddwn erioed wedi eu gweld o’r blaen. Rhyw ddwsin ohonynt yn ymyl y lôn, yn ddiwyd yn chwilio am fwyd yn y gwmon ar y traeth, ac yn troi’r cerrig gyda’u pig bychan cryf. Ambell dro, dau neu dri ohonynt yn cyd-weithio i godi carreg go fawr, ac yn cythru wedyn i ymosod ar y trychfilod oddi tannodd. Sylwi ar eu coesau melyngoch, eu cefnau brown, a’u boliau gwyn, a’r darn o dduwch ychydig yn is na’r gên. Ac o edrych ar y llyfr, cadarnhau fy nyfarniad cyntaf, mai hutan y dŵr (*turnstones*) oeddynt. A chael rhyw gyffro pleserus o sylweddoli fy mod wedi ychwanegu un arall at y stôr o adar yr oeddwn wedi eu gweld a dysgu eu hadnabod.

Ychwanegwyd at fy mhleser o sylweddoli fy mod yn edrych ar adar oedd efallai ar eu taith bell o’r Arctic i Fôr y Canoldir. Efallai mai ar Ynys yr Ia, neu Greenland y buont yn nythu yn ystod misoedd yr haf, ond yr oeddynt am dreulio misoedd y gaeaf yn yr hinsawdd gynnes yn Ne Ffrainc neu Sbaen. Nid oes prawf fod yr un hutan y dŵr wedi nythu ym Mhrydain, ond y mae rhau ohonynt yn aros ar ynysoedd Orkney a Shetland dros yr haf. Ond bob Hydref gellir eu gweld yn heidiau prysur ar lannau carregog y môr, neu ar ymyl rhai o’r llynnoedd, rhai ar eu ffordd i’r De, ac eraill am aros gyda ni dros y gaeaf. Eu bwyd yw trychfilod, pryfaid cop, llygaid meheryn, a chregyn gleision. Y mae eu pig, nid yn unig yn ddigon cryf i droi carreg go drom, ond hefyd, i agor y llygaid meheryn a’r cregyn gleision.




**Hanes Llyn Ystumllyn**

“.....I’r dwyrain o Rhiw-for Fawr mae’r clawdd naturiol o gerrig môr yn ffurfio argau i geg Llyn Ystumllyn - braich o’r môr oedd y llyn ar un adeg. Nid oes cofnod am ffurfio’r clawdd neu far; nid yw’r ffaith bod mapiau Saxton a Speed yn dangos dŵr agored yn profi wrth gwrs i’r bar ymffurfio ers eu dyddiau nhw yn y 16eg ganrif. Cafodd y nant sydd heddiw [1946] yn draenio’r llyn ei gwyro’n fwriadol i’r dwyrain i ymarllwys i’r môr ger y Graid Ddu (gweler y map). Yn nhyb Mr Owen o Groesor traeniodd y llyn i’w lefel bresennol tua 1840, er nad oes cofnod pendant o hynny. Treiddiodd yr afon y bar o gerrig i gyrraedd y môr trwy drylifiad trwy’r cerrig ar ei chwrs gwreiddiol ger Rhiw-for Fawr a gwnaethpwyd y newid i’w allanfa bresennol rhwng 1763 a 1785.

Erbyn hyn, cors dŵr croew yw ‘Llyn’ Ystumllyn yn graddio mewn mannau i lyn bas. Yn ystod stormydd gallai peth dŵr heli ei gyrraedd dros y bar ond bychan yw’r effaith yn ôl pob golwg. Ym mis Medi 1938 roedd y coed helyg Salix cinerea o dan 2 droedfedd o ddŵr. Erys ardaloedd eang o ddŵr agored heb lysdyfiant. Cyrhaeddodd gwlff Ystumllyn mor bell â’r ffordd fawr ger Pentrfelin, ac yn y cyfnod hwnnw culdir yn unig gysylltai penrhyn Moel y Gêst â’r tir mawr.....

**Cyfieithiad o JA Steers (xxxx)**
**The Coastline of England and Wales**

Gwyliais yr adar hyn ar lannau Menai gyda phleser digymysg. Mor brysur a diwyd oeddynt. Ac mor gyflym y rhedent o’r naill garreg i’r llall, a chyda nerth mor anhyffredin, a chofio eu maint, y codent y cerrig yn eu hymchwil dibaid am fwyd. Yn eu hymyl yr oedd tair fôrhedydd gyda’r streipen wen yn amlwg ar eu gwddf, yn eu gwylied yn ddioglyd, fel pe baent yn mwynhau’r hwyl o weld adar eraill yn gorfod ymdrechu mor galed am eu bwyd. Rhyw wythnos yn ôl cefais brofiad pleserus arall. Yr oeddwn yn ymyl glannau Menai, a’r môr i mewn, pan sylwais ar aderyn yn diflannu’n sydyn ar ei ben i’r dŵr. Bilidowcer? Nage wir. Yr oedd hwn yn rhy olau o lawer. Disgwyliais yn eiddgar iddo ail ymddangos, ac ymhen rhyw hanner munud, dyma fo i fyny ychydig lathenni ymhellach i ffwrdd, ond yn ddigon agos imi sylwi ar y cudyn du ar ei ben, y gwddf main hir yn wyn fel sidan, a’r cefn yn frownlwyd. Gwyddwn yn syth i ble i droi yn fy llyfr, a llawenhau o weld mai gwyach fawr gopog (*great crested grebe*) ydoedd. Bum yn ei wylied am ugain munud, a sylwi arno’n mwynhau ei bysgota tawel, heb neb na dim i’w darfu. (Yr oedd yn glawio, ac yn noson o hydref, a’r lle yn unig). Dyma aderyn arall nad oeddwn wedi ei weld o’r blaen, ac yr oedd fy llawenydd yn fwy pan ddarllenais wedi dychwelyd i’r tŷ, ei fod yn aderyn go brin yng Ngogledd Cymru. Dywedir ei fod yn nythu weithiau ar Ystumllyn yn ymyl Porthmadog, ac ar Lyn Llywennan yn Sir Fôn. Rhyw dair mil

ohonynt sydd trwy Brydain Fawr i gyd. A dyma finnau wedi cael gweld un o'r tair mil!

Daeth llawenydd imi fel hyn yn aml yn ystod yr haf diwethaf. Yn ddiweddar y dechreuais droi fy sylw at adar glannau'r môr, a hyfrydwch oedd darganfod ac adnabod adar newydd yn barhaus. Dyma rai o'r adar a welais am y tro cyntaf yn ystod yr haf a'r hydref:
**heligog** (*guillemot*)**, llurs** (*razorbill*)**, gwylan goesddu** (*kittiwake*), **ffwlmar, llygad yr ych** (*dunlin*), **coeswerdd** (*greenshank*), **rhostog goch a chynffonddu** (*bartailed* a *blacktailed godwits*).

Caf sôn eto am rai o'r adar hyn, ond digon yw nodi yma'r pleser a'r cyffro a ddaw i ddyn wrth adnabod aderyn nas gwelodd erioed o'r blaen. Beth sydd yn cyfrif am y pleser tybed? Y reddf i feddiannu, a dyn yn anfodlon nes "meddiannu" yn ei feddwl a'i adnabyddiaeth, bob aderyn sydd yn ymyl ei drigfan? Y mae rhywbeth mwy na hyn yn y peth, yr wyf yn sicr. Rhan o'r pleser yn unig yw'r adnabod a'r ychwanegiad at y stôr o wybodaeth. Daw'r pleser pennaf o sylwi a rhyfeddu at y lliwiau a'r ffurfiau newydd, at yr ymarweddiad nodweddiadol o'r aderyn, gwahanol i ymarweddiad pob aderyn arall.

A chymaint o wahanol fathau o adar y sydd! Yn ôl yr awdurdodau uchaf, y mae drwy'r byd i gyd tua wyth mil a hanner o wahanol fathau. Ychydig yw hyn o'i gymharu âr trychfilod. Dywedir bod tua tri chwarter miliwn o fathau ohonynt hwy, a'r nifer yn cynyddu yn ôl deng mil y flwyddyn!

Anodd yw dweud faint o adar unigol sydd yn y byd, ond amcangyrifir bod tua chan mil o filiynau ohonynt, ac o'r rhai hyn, ceir dros gan miliwn o adar y tir ym Mhrydain Fawr. Y mae dros bum cant o wahanol fathau o adar ym Mhrydain, ac yn ôl y rhai a aeth i'r drafferth o geisio cyfrif, y rhai mwyaf poblog yw'r asgell fraith a'r fwyalchen. Y mae tua deng miliwn yr un ohonynt hwy. Yn nesaf atynt daw'r ddrudwen a'r robin goch, gyda saith miliwn yr un, ac yn nesaf wedyn, y fronfraith a'r ehedydd bach, aderyn y tô, a'r siani lwyd gyda thair miliwn yr un. Gwelir felly fod tua hanner y boblogaeth o adar y tir ym Mhrydain yn perthyn i'r wyth math yma. A dyma'r adar a ddaw nesaf yn y rhestr poblogaeth. (cymeraf y ffigyrau hyn i gyd o lyfr James Fisher: "Watching Birds")

Ydfran - Miliwn a thri chwarter

Penfelyn, llwydfron, dryw, dryw'r helyg ac ysguthan - miliwn a chwarter yr un.

Jac y do, ehedydd, titw tomos-las, gwennol, gwennol y bondo a llinos – trichwarter miliwn yr un.

Llinos werdd, titw fawr, pibydd y coed, hwyaden wyllt, siff saff, Iâr ddŵr, gwennol ddu, cornchwiglen a petrisen - 350,000

Dyma'r adar gyda'r boblogaeth fawr, ac nid yw'r ffigyrau hyn wrth gwrs ond amcangyfrif, yn seiliedig ar astudiaeth o'r nifer o adar mewn math arbennig o dir, mewn gwahanol rannau o'r wlad, ynghyd a gwybodaeth o arwynebedd y math hwnnw o dir drwy'r wlad i gyd.

Haws o lawer yw cyfrif yr adar sydd yn weddol brin. Yn Lloegr a Chymru er engraifft, y mae tua wyth mil o'r creyr glas, ac y mae'r rhif hwn yn weddol gywir oherwydd erbyn hyn y mae byddin gref a gwyliadwrus o wylwyr adar yn cynorthwyo mewn gwaith o'r math yma, a hawdd yw gwybod ymhle y nytha'r creyr glas, a'u cyfrif wrth eu nythod yn yr haf.

Y mae rhai adar sydd yn brin iawn, bron a darfod o'r tir. Bu'r eryr unwaith yn nythu yng Ngogledd Cymru, fel y dengys yr enw poblogaidd ar fynyddoedd y wyddfa, Eryri. Erbyn hyn yn yr Alban yn unig y nythant, er fod ambell gyw yn crwydro i Loegr neu Gymru. Dywedir mai tua pum cant yw poblogaeth yr eryr, ond y mae arwyddion ei fod ar gynnydd.

Un o'r adar prinnaf ym Mhrydain yw'r barcud (*kite*). Yn y ganrif ddiwethaf, nythai yn y rhan fwyaf o Brydain Fawr, ond erbyn heddiw, nis ceir yn nythu ond yn Rhandirmwyn yng nghanolbarth Cymru. Ceisir cadw gwyliadwriaeth ofalus rhag i ladron ddwyn yr wyau o'r chwe nyth a geir bob haf. Ers tua hanner canrif, arhosodd nifer y barcud yn sefydlog yn ymyl y dwsin. Er mai yng Nghymru yn unig y gwna ei nyth, ceir y cywion weithiau, fel yn achos yr eryr, yn crwydro i rannau eraill o Brydain. ( Sonir am un o nodweddion y barcud yn llyfr Job*: " Y mae llwybr nid adnabu aderyn, ac ni chanfu llygad barcud".* Er efallai nad y barcud a adwaenwn ni oedd hwn.) Un o'r adar ysglyfaethus yw'r barcud, fel yr eryr, a'i arfer, gan ddilyn y cudyll coch, yn hytrach na'r cudyll glas, yw disgyn yn sydyn o'r uchelder ar ei ysglyfaeth, ac y mae ei lwyddiant yn dibynnu ar ei allu i weld ei ysglyfaeth yn glir o bellterau'r entrychion.

Ni welais i eryr na barcud erioed. Bu ambell gyfaill imi'n honni iddo weld y barcud ar daith drwy ganolbarth Cymru, ond wedi ei holi, cefais nad oedd yn sicr o'i bethau. Hawdd yw cymysgu rhwng y barcud, a'r eryr o ran hynny, ac

aderyn ysglyfaethus arall, y boncath. Dyma eto aderyn mawr sydd yn hoff o hofran yn yr awyr, ac sy'n gallu ehedeg a chylchdroi'n ddidrafferth am amser maith heb symud fawr ddim ar ei adenydd. Gwelais ambell un yn ymyl mynyddoedd Arfon, a haid o adar llai o'i amgylch yn prysur geisio'i ymlid ymaith, ac yntau'n morio'n braf a di-stŵr drwy eu canol, a'u hanwybyddu fel y bydd llong yn anwybyddu tonnau mân y môr.

Y ffordd i wahaniaethu rhwng y barcud a'r ddau aderyn arall, yw sylwi ar ei gynffon fforchog. Ef yw'r unig un o'r adar ysglyfaethus gyda chynffon felly. Y mae pen y barcud yn oleuach na phen y boncath, a'i adenydd yn fwy hirfain, ond y gynffon yw'r nodwedd amlycaf a hawsaf sylwi arno.

HYDREF 6, 1949.— Difiau. I Falltraeth i weld y Bod Montagu (*Montagu`s Harrier*) sy`n awr yng ngofal cyfeillion imi yno. Mae oddeutu chwech wythnos wedi pasio er pan gafwyd hwn yn analluog ar y gors, yntau wedi derbyn niweidiau tost i`w adain hir. Hebog braf iawn ydyw o ran maint, un ffyrnig a milain yr olwg, o deulu Bod y Gwerni a`r Boda Dinwen (*Marsh Harrier* a *Hen Harrier*). Un brown tywyll a brycheulyd ydyw o ran lliw, gyda chrwmp gwyn a choesau melyn. Fe wisgai fodrwy am ei goes: a daeth gair i law o Lundain i ddweud mai y llynedd y modrwywyd ef pan ydoedd gyw yn y nyth ar ran o gorstir swydd Dyfnaint. Aderyn gwyllt iawn ydyw ar hyn o bryd, anniddig ac aflonydd yn ei gaets; a thybiaf na bydd modd ei ddofi byth. Mae ei adain yn gwella, a`r aderyn yntau`n prifio ar y tameidiau cigog a dderbyn nos a bore. Llarpiwr a blingwr ydyw ar aderyn ac anifail. Fe fydd y Bod Montagu ar ei gynefin yn nythu gyda ni ym Mon. Un prin ac anghyffredin ydyw yn y wlad erbyn hyn: a da o beth ydyw rhoi lloches iddo yn y sir. Ddoe, fe dderbyniwyd hysbysiad am un a fodrwywyd yma ym mis Gorffennaf eleni yn troi i fyny ym mharthau`r *Pyrenees* rhwng Sbaen a Ffrainc ddechrau`r mis hwn. Yn ddiamau, mae`n aderyn sy`n gallu teithio ymhell o`i fro enedigol mewn byr amser.

.. **Dyddiadur TG Walker (Y Cymro 1950)**

Dau aderyn ysglyfaethus sydd yn brin iawn, ac a nytha yng Nghymru ambell dro, yw'r bod tinwyn ( hen harrier ), a'r bod Montagu. Rhyw bedwar neu bump bod tinwyn sy'n nythu ym Mhrydain erbyn hyn, a rhyw hanner cant o'r bod montagu. Nythodd un bod tinwyn yng Ngogledd Cymru ym 1945, ac y mae bod montagu yn nythu yn sir Fôn ers rhai blynyddoedd. Gellir ei weld ef ambell ddiwrnod yn yr haf yn ymyl cob Malltraeth, a'r cornchwiglod neu'r morwenoliaid yn ei ymlid yn chwyrn, ac yntau'n hedfan yn gyflym yn ymyl y ddaear yn chwilio am ei brae – adar bychain neu lygod.

Y rheswm, wrth gwrs, paham yr aeth adar ysglyfaethus mor brin, yw fod ciperiaid yr ystadau mawr wedi bod wrthi am gyfnodau maith yn eu saethu am eu bod yn difa'r adar hela, ac yn ymyryd felly â sbort y byddigions. Mewn llyfr a

gyhoeddwyd gan H E Forrest yn 1907, *Vertebrate Fauna of North Wales,* ceir darlun o nyth olaf y bod montagu yn Sir Feirionydd, a'r adar eisoes wedi eu saethu. Y rhyfeddod yw fod yr adar ysglyfaethus wedi parhau mewn bod o gwbl yn ein gwlad. Erbyn heddiw, y mae deddfau i amddiffyn rhai ohonynt, rhag iddynt lwyr ddiflannu.

Prif elynion yr adar prin ar hyn o bryd yw lladron wyau, a lwydda, er pob ymgais i amddiffyn y nythod, a chadw'n ddirgel eu lleoliad, i ddwyn yr wyau gwerthfawr, a'u gwerthu am grocbris i'r rhai sy'n parhau ymlaen gyda'r arfer ffôl o gasglu wyau adar. Y rheswm paham yr aeth cornchwiglod mor brin ar un adeg oedd fod cymaint o hel ar eu wyau u'w bwyta. Rheswm arall sy'n gyfrifol am i rhegen yr ŷd bron ddarfod o'r tir. Pan oeddwn yn fachgen yn Sir Fôn, clywid yn barhaus ei llais cras ac undonnog hi adeg cynhaeaf gwair. Ond erbyn heddiw, y mae'n ddigwyddiad o bwys pan glywir hi'n gweiddi. Tua deng mlynedd yn ôl, a minnau mewn cynhebrwng ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon, y clywais un ddiwethaf, yn gweiddi'n gras o'r cae gwair gerllaw. Y peiriannau diweddar, a'r cynaeafu cynharach sy'n gyfrifol am ei diflaniad hi o'r wlad.

Aderyn prin arall sy'n trigo yng Nghymru yw'r frân goesgoch (*chough*), - aderyn tebyg i jac-y-do, ond fod ei goesau'n goch. Bu adeg pan oedd ef yn ddigon cyffredin ym Mhrydain, ond yn awr, yn ymyl arfordir gorllewinol yr Alban, Cymru a Lloegr yn unig y'i ceir. Gellir gweld ambell bâr yn ymyl rhai o hen chwareli Arfon, ac ar rai o glogwyni ei arfordir. Gwneir llawer hwddiw i amddiffyn a chadw'n fyw yr adar prinnaf yn ein gwlad. Perir deddfau amddiffyn, ac ymwna llawer o unigolion a chymdeithasau yn y gwaith o ddiogelu nythod, wyau a chywion. Gydag ambell aderyn defnyddir ffordd effeithiol iawn i orchfygu'r demtasiwn ariannol o gyfeiriad y casglwyr wyau. Cynigir gwobr o bumpunt i unrhyw amaethwr yn ymyl y Rhandirmwyn, os llwydda'r barcud i fagu cyw ar ei dir.



Dyma’r tir fel yr oedd yn y 50au o gwmpas eglwys a mynwent Llanbeblig, Caernarfon lle clywodd Harry ei rygarug tra mewn angladd. Roedd y fynwent yn ymestyn o boptu’r ffordd ond caeau agored oedd heibio iddynt i lawr at yr afon Saint. Mae tir yn adeiledig erbyn hyn. Yn sicr ni fu llawer os o gwbl o gywain gwair yma yn y deugain mlynedd aeth heibio – heb son am regen yr yd.




Ac yn awr, beth am adar y môr? Anodd yw cyfrif yr adar hyn, ond y mae Fisher yn tybio bod eu poblogaeth hwythau dros gan miliwn ym Mhrydain – rhywbeth yn debyg i boblogaeth adar y tir. A hawdd gennyf gredu hynny pan af am dro i Draeth Lafan yn yr Hydref, a sylwi ar y miloedd o adar o lawer math yn heidio’n brysur ar yr erwau maith o dywod rhwng Bangor a Phenmaenmawr - gwylanod a phiod y môr, y goesgoch a’r goeswerdd, y môr-hedydd, a’r llygad yr ych, - fe’u gwelir yn heidiau ar y tywod am filltiroedd lawer.

Yr adar mwyaf cyffredin ar lan y môr wrth gwrs, a’r rhai a adnabyddir orau, yw’r gwylanod. Ond y mae’n syndod gymaint o bobl sydd, na wyddant fod mwy nag un math o wylan. Ac mae llawer na wyddant mai gwylanod ieuanc yw’r rhai brith. Yr wylan fwyaf poblog ar ein glannau ni yw’r wylan benwaig, gyda’i chefn llwyd, a’i choesau melyn, a’r du a gwyn ar ben pellaf ei hadain. Gwylan gyffredin arall yw’r wylan benddu, ychydig yn llai na gwylan benwaig. Cyll yr wylan hon y duwch ar ei phen yn ystod y gaeaf, ond hawdd ei hadnabod: y mae ei phig a’i choesau’n goch, y mae rhimyn gwyn ar hyd ymyl blaen ei hadenydd, ac y mae ei llais yn fwy cwynfanllyd. Ond y mae dwy wylan arall a welir ar ein traethau: yr wylan gefnddu fawr, a’r wylan gefnddu fach. Hawdd eu hadnabod oddi wrth liw eu cefnau, ac er fod yr un fwyaf yn brin ( rhyw ddwy fil ohonynt a fydd yn nythu ym Mhrydain ) gwelir ambell un ar lannau Môn ac Arfon, yn edrych gyda’i hadenydd mawr du, yn gawr o wylan yn ymyl y llu gwylanod eraill.

Fel y soniais eisoes, eleni y dechreuais droi fy sylw at adar y môr, a chaf fwy o bleser yn eu gwylied hwy nag a gefais hyd yn oed yn gwlied adar y tir. A oes

sŵn mwy hyfryd na chytgan dreiddgar haid o biod y môr, yn cynyddu'n araf mewn maint a chyflymdra, fel yr eheda'r adar ymaith mewn braw? Neu ffliwtio melys rhyw ddwsin o'r goesgoch pan godant hwythau'n sydyn, ac yn ofnus o ymyl y dŵr? Tybiaf ambell dro mai'r aderyn prydferthaf ar ei adain yw pioden y môr, yn batrwm cain o goch a du a gwyn. Yn agos iawn ato, daw'r goesgoch, a rhyw goethder bonheddig yn y cyfuniad o lwyd a gwyn a choch yn ei lliwiau hithau. Ond anodd dewis yn bendant yng nghanol y fath gyfoeth o geinder ac ysblander.

Daw i'm cof aml olygfa a roddodd foddhad esthetig anghyffredin i'm yn ystod y flwyddyn hon. Gweld môr-hedydd yn trotian yn llednais ac yn fywiog ar gerrig mân yn ymyl y dŵr ym Mae Cemlyn, ei goler wen yn amlwg fel cadwyn arian am ei wddf, a'i goesau melyn yn gwibio'n gyflym wrth iddo redeg. Gweld haid o lygad yr ych yn codi'n gwmwl llwyd oddi ar dywod Traeth Lafan, ac yn troi a chylchdroi'n gyflym fel uned perffaith cyn disgyn eto ar y tywod ymhellach draw. Dyma'r mwyaf poblog o blith adar y tywod. Yr oedd tua chwe chant yn yr haid a welais i, a rhyfeddol yn wir yw'r modd y gall cynnifer o adar gadw mor glos at eu gilydd a hwythau'n hedfan mor chwim, ac yn cylchdroi mor sydyn. Y mae fel pe baent wedi eu rhwymo wrth eiu gilydd gan we gyfrin, ddewinol. Neu sylwi ar ehedeg gosgeiddig y fôrwenol yn ymyl Penmon, yr hofran cyflym ac yna'r cwymp sydyn fel mellten i'r dŵr islaw i ddal pysgodyn, a hwnnw'n sgleinio fel arian byw yn ei phig, a hithau'n brysio i'w roi i'r cyw sydd yn disgwyl amdano ar wyneb y dŵr.

Profiadau i'w cofio a'u trysori yw'r rhai hyn, profiadau a rydd yr un boddhad esthetig i ddyn ag a gaiff wrth wrando ar gân gan Schubert neu wrth edrych ar ddarlun gan Monet.

## 3. CANU

*“Adar ban cysongan sydd*
*Ar ei heulog orielydd”*
**Cynddelw**

Rhyw ddwy flynedd wedi imi ddechrau gwylied yr adar, yr oeddwn un diwrnod yn cerdded heibio i goed ffynidwydd pan glywais sŵn tenau tebyg i gloch fechan yn tincial yn y pellter. Gwrandewais yn astud. Ie, cân aderyn, ond anodd dweud pa mor bell ydoedd, nac o lle y deuai. Dal i wrando a sefyll yn berffaith lonydd; ac yn raddol deuthum i sylweddoli, er fod y gân mor ddistaw, mai o’r goeden yn f’ymyl y deuai. Ac yn sydyn, daeth yr aderyn i’r golwg, yn gwibio’n brysur ar ganghennau’r ffynidwydd, yr aderyn lleiaf a welais erioed. Sylwais ar y streipen felen ar ei gorun, yn euraid yn yr heulwen, ac adnabûm ef fel yr eurben, (*gold-crested wren*) y lleiaf o’r holl adar  ym Mhrydain Fawr.

Sylweddolais na fuaswn wedi gweld yr aderyn hwn, na dyfod i’w adnabod, oni bai imi glywed ei gân o’r coed. A bu hon yn foddion imi benderfynu rhoddi mwy o’m sylw o hyn ymlaen i gân yr adar, er mwyn i hynny fy helpu u’w hadnabod. Dechreuais arni yn ystod yr hydref a’r gaeaf dilynol, ac yn raddol deuthum I adnabod cân yr adar mwyaf cyfarwydd.

Yr oedd rhai adar y gallwn eisoes eu hadnabod oddiwrth eu cân; y gog, yr ehedydd, y dylluan felynddu, jac-y-do, a’r fronfraith. Ond yn awr gwrandewais yn astud ar eraill, a rhyfeddwn at gyfoeth ac amrywiaeth eu canu. Y robin goch, er engraifft. Sylwais mai ef yn unig a ganau’n gyson yn yr hydref. Y mae pob aderyn yn peidio â chanu pan gyll ei blu ar ôl tymor y magu, a’r robin goch yw’r cyntaf i ail-ddechrau ar ei gân, ymhell o flaen y rhan fwyaf o’r lleill. Fe’i clywir ar hyd y flwyddyn ond am ryw fis, a chan fod ynddi’r fath amrywiaeth, y mae’n anodd ei chofio a’i disgrifio. Nid oes ynddi na rhuthm sefydlog, na nodau pendant. Yn aml yn ystod y gaeaf bûm yn tybio fy mod yn gwrando ar aderyn nas clywais o’r blaen, a chael mai’r robin ydoedd bob tro. Ond yn raddol dysgais eu hadnabod, a’u nodau yn gan dyner, braidd yn denau, ac yn yr hydref, rhyw iâs hiraethus a thrist yn rhai o’i nodau uchaf.

Gwahanol iawn oedd y gân nesaf a glywais. Y nodau’n gryf ac yn bendant, a’r frawddeg gerddorol bron yr un fath bob tro. Cân debyg i gân y caneri a oedd gennym gartref erstalwm, ac yn diaspedain dros yr ardd. Disgwyliais weled aderyn go fawr a chryf yn awdur y gân, ond mawr fy syndod o weled mai dryw

ydoedd. Anodd oedd credu y gallai cân mor dreiddgar a chadarn ddyfod o gorff mor fychan. Dysgais adnabod y gân hon ar unwaith, a chlywais hi'n aml yn ystod y gaeaf. Y mae'r dryw, fel y robin, yn canu bron ar hyd y flwyddyn.

Ar fore gweddol dyner ym mis Ionawr y clywais y gân nesaf. Clywais hi o'm gwely drwy'r ffenestr agored, yn gân felys o un frawddeg fer yn cael ei hail-adrodd dro ar ôl tro, o ganghennau uchaf y goeden ffawydd anferth a oedd o flaen y tŷ. Drwy'r sbienddrych gallwn weled yr aderyn, a thybiais mai bronfraith ydoedd. Ond nid oedd y gân hon ddim byd tebyg i gân y fronfraith, y gân yr oeddwn eisoes yn ei hadnabod fel un hwyliog ac amrywiol, a'r brawddegau staccato yn ei chanol, fel pe bai'r aderyn yn gofyn drosodd a throsodd yr un cwestiwn "*Did-he-do-it, Did-he-do-it?*", neu'n gweiddi ar yr un person "Wil-Phylip! Wil-Phylip! Wil-Phylip!" ac yn ychwanegu'n ddirmygus "Twt-twt-twt!" fel pe bai'n gwawdio Wil Phylip druan. Nid rhyfedd i Dafydd ap Gwilym ganu:

*"A bronfraith ddisgrifiaith gref"*

Nage, nid cân y fronfraith oedd hon.

O sylwi'n fanylach, gwelais fod yr aderyn hwn yn fwy na bronfraith, a bod ei lliw yn llwytach, a'r darnau brown ar ei frest yn sbotiau crwn a chlir. Y dresglen ydoedd, wrth gwrs, a sylwais fel yr âi'r blynyddoedd ymlaen, ei bod yn ymweld âr goeden hon tua'r un adeg bob gaeaf. Sylwais hefyd ar ei hoffter o ganu mewn tywydd stormus, yn wynebu'r gwynt a'i herio o'i llwyfan ar ganghennau noeth y ffawydden. Y mae ei chân bob amser i mi yn addewid o bethau gwell i ddyfod, ac yn gymorth i herio oerni a llwydni'r gaeaf.

Yn Ionawr hefyd y sylwais ar nodau tyner a llednais y ditw-tomos-las, "tsi-tsi-tsi-tsi, tsi-tsi-tsi-tsi" fel y prysurau o gangen i gangen, ac ar ddau nodyn clir, a braidd yn gras, y ditw fawr. Y mae Ludwig Koch wedi cyfrif ugeiniau o wahanol nodau'r ditw- fawr, ond y ddau nodyn hyn yw'r rhai a glywir yn nechrau'r flwyddyn, yn debyg i sŵn llifio coed cyflym.

***Turdus viscivorus***
Brych y Coed
*tresglen*
*sgrechgi (penllyn)*
*caseg y ddrycin [gweler fieldfare green woodpecker a starling]*
*sgrad y coed [gweler jay]*
*bronfraith fawr [gweler song thrush]*
*pen y llwyn*
*cragell y coed*
*y dresglen fwyaf*
*tresglen lwyd*
*crec y coed*
*crogell y coed*
*gogell*
*cragell goed*
*crachell*
*tresglen y crawel*
*crecer*
*crogyn*
*cracas goed (sir fôn)*
*penllwyn*
*ceiliog y storm*
*ysgrech y coed [gweler jay]*
*shani llwyd*
*bisli*
Mistle Thrush
*Rhagor o Enwau Adar: Dewi E Lewis a Chymdeithas Edward Llwyd*

Dechreuodd y fronfraith hefyd ganu tua diwedd y mis, ac ar ambell ddiwrnod gweddol dyner, yr oedd ei chân hi, a chân yr adar eraill a enwais, yn gytgan orfoleddus, ac yn ernes fod gwanwyn ar y ffordd.

Ond yn Chwefror daeth rhewynt ac eira i fyny'r cwm o'r dwyrain, a thawelodd yr adar am ysbaid. A phan ddaeth y tywydd tyner eto, sylwais ar aderyn arall yn dechrau ar ei gân: y siani lwyd. Safai ar frigyn uchaf y gwrych o dan y tŷ, yn swil ac ofnus, a'i chân mor ostyngedig a hi ei hun, yn fyr ac yn wan, heb lawer o nodau ynddi, ac eto'n felys. Ar y dechrau yr oeddwn yn tueddu i gymysgu rhwng y gân hon a chân y robin , ond deuthum yn fuan i'w adnabod oherwydd fod iddi ei rhuthm cyson a phendant. Yr oedd yn debyg yn hyn o beth i gan y dryw, ond fod honno'n gryfach o lawer.

Ac yna daeth y gân yr oeddwn wedi bod yn dyheu am ei chlywed, y gân y mae llawer yn ei hoffi'n fwy na'r un cân, y fwyalchen. Tua diwedd Chwefror, a minnau'n cerdded i lawr lôn gul i gyfeiriad yr afon, a sŵn y robin a'r ditw yn fy nghlyw, dyma'r llais melodaidd hwn yn taro ar fy nghlust, a gwrandewais mewn syndod. Rhyfeddais nad oeddwn wedi rhoi mwy o sylw i'w gân o'r blaen, ond yn awr gwleddais arni, a sylwi ar ei hamrywiaeth a'i melystra. O ran timbre, yr oedd yn felys ac yn swynol fel ffliwt, ac yn debyg i gân y dresglen, ond yr oedd ynddi fwy o lawer o amrywiaeth mewn nodau ac amseriad na honno. Nid oedd ynddi'r brwdfrydedd afradlon a geir yng nghân y fronfraith ( y *'fine careless rapture'* y sonia Browning amdano ) ond deuai allan o'r big felen yn ffrwd glân a diymdrech, yn taro'n esmwyth ar y glust, ac yn hyfrydwch i'r ysbryd blin. Bron na ddywedwn

*"I'r ysbryd clwyfus rhydd iachad,*
*Hedd i'r drallodus fron."*

Erbyn diwedd Mawrth yr oeddwn yn gyfarwydd â chân pob aderyn a welwn yn ystod y gaeaf o gwmpas yr ardal. Heblaw'r rhai a enwais, yr oedd yr ehedydd bach, a'r llinos werdd, y drudwen, a'r asgell fraith, y llinos a'r jibinc, ac aderyn y tô – pob un ohonynt a'i gân arbennig ei hun, yn rybudd o'i ddynesiad, ac yn arwydd o'i bresenoldeb, heb i ddyn orfod ei weld.
Yr oeddwn yn barod felly, ar gyfer y bennod nesaf yn hanes yr adar o'm cwmpas. Ac un bore, dyma lais dieithr o'r helyg yn ymyl y tŷ. Dau nodyn, nid yn anhebyg i ddau nodyn y ditw fawr., yn dyfod o big aderyn bychan llwyd, a wibiau o gangen i gangen yn ei ymchwil di-baid am bryfed. Hawdd oedd adnabod hwn; y mae ei enw yn ei gân, "siff-saff! siff-saff! Siff-saff!" Ac er mai

cân undonog oedd, yr oedd yn hyfrydwch i'm clust oherwydd dyma'r cyntaf o'r teithwyr pell i gyrraedd fy ngardd yn y gwanwyn cynnar.

Bydd llawer o stŵr ddiwedd Ebrill pan gyrrhaedda'r gog, a dyhead gan bawb am glywed ei nodau. Clywir ynddynt addewid sicr fod y gwanwyn eto'n dyfod, ac fod y gaeaf wedi ffoi. Ond daw'r addewid yn llawer cynt i'r neb sy'n clywed ac yn adnabod y siff-saff. Nodais y dyddiad y'i clywais gyntaf yn fy nydd-lyfr- yr 28ain o Fawrth, a thua'r un diwrnod bob blwyddyn y caf yr hyfrydwch o'i glywed, a chroesawu'n llawen ei ddychweliad i'n mysg.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach clywais lais dieithr eto, ac o'r un cyfeiriad. Yn brysur yn gwibio drwy gangau'r helyg yr oedd aderyn arall. Meddyliais i ddechrau mai siff-saff ydoedd. Yr oedd yn union yr un fath ag ef o ran ei faint a'i liw a'i ymarweddiad. Ond yr oedd cân hwn yn hollol wahanol; cân dyner, syml a chyfan. Dechreuai'n dawel a chynyddai'n ffrwd o nodau tonnog, a thawelu wedyn cyn gorffen. Ni fum yn hir cyn darganfod mai dryw'r helyg ( willow warbler ) oedd yr aderyn, yr ail ddieithryn i gyrraedd ein glannau yn y gwanwyn, a'i gân y sŵn mwyaf cyfarwydd yn ymyl ein coedwigoedd yn ystod yr haf. Ac unwaith eto gwelais werth adnabod cân yr adar: amhosibl â'r llygad noeth, ac amhosibl bron gyda chymorth ysbienddrych, yw gwahaniaethu rhwng siff-saff a dryw'r helyg. Ond eiliad neu ddau o gân sydd ddigon i'r cyfarwydd i fedru gwahaniaethu rhyngddynt.

Y mae'r ddau aderyn yn perthyn i'r un teulu, y teulu a elwir yn delorion. (warblers) A pherthyn i'r teulu hwn yr oedd yr aderyn dieithr nesaf a glywais. Yr Ebrill yn tynnu i'w derfyn, a'r gog eisoes wedi canu, pan glywais o'm gwely un bore, gân flêr, frysiog, a'r nodau'n dylifo allan blith-drafflith ar draws ei gilydd, fel pe bai'r aderyn yn methu cael allan o'i gyfansoddiad yn ddigon cyflym. Codais ar unwaith, ac ar wifren y trydan o flaen ffenestr y tŷ yr oedd aderyn bychan llwyd, a'r gwynt yn codi ei blu, ac yn peri iddo edrych mor flêr a'i gân. Sylwais drwy'r sbienddrych ar y gwyn o dan ei ên, a gwyddwn ar unwaith mai llwydfron (*whitethroat*) ydoedd. Er na chawn fawr o flas ar ei gân, deuthum i hoffi'r aderyn, oherwydd gwnaeth ei nyth droeon yng nghanol y drain a'r mieri a dyfai ym mhen pella'r ardd, a mwynhawn ei ynni di-baid, a'i symudiadau brysiog. Dyma aderyn a'i gymeriad yn ei gân.

A dyma'r cyfan cofiaf yn iawn o'r adar y dysgais adnabod eu cân yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn cyntaf y bum wrthi'n gwrando arnynt o ddifrif; yr adar cyffredin mewn maes a gardd, yr adar a glywir ac a welir bron ym mhobman drwy'n gwlad. Y fantais fawr o adnabod y rhai hyn yw fod y glust yn gallu

dweud wrthym ar unwaith os oes aderyn nas gwelsom o'r blaen rywle yn y cyffiniau, a gallwn wedyn wylied amdano a sylwi arno er mwyn dod i'w adnabod.

Ond anghofiais sôn am un aderyn arall. Cyrhaedda cân yr adar ei penllanw yn ystod mis Mai. Bydd pob aderyn yn ei diriogaeth ei hun yn nythu ac yn magu erbyn hynny. Ac yna y mae'r canu'n graddol ddistewi, ac erbyn mis Awst fe'n gadewir ag un gân a glywir yn atseinio o bell yn y gwrychoedd ar draws y meysydd ŷd. Cân y penfelyn ydyw, yn gyflym ac undonog, a nodyn hir, tenau ar ei diwedd. ( Yn Saesneg fe'i cofir ac fe'i dysgir fel "a-little-bit-of- bread-and-no-cheese", gan ddal yn hir ar y '*che-e-ese'*) Ond y mae'r aderyn ei hun yn llawer tlysach na'i gân, gyda'i liwiau melyn llachar.

A yw'r adar yn canu'n union yr un fath ym mhob rhan o'r wlad? Ynteu a oes tafodieithoedd yn eu plith hwythau? Clywais Ludwig Koch yn trafod y cwestiwn un tro ar y radio. Gyda chymorth recordiau o gân yr asgell fraith, ceisiau ddangos bod gwahaniaeth yng nghân yr aderyn hwn mewn gwahanol rannau o'r wlad. Cân gweddol unffurf sydd i'r asgell fraith – un nodyn yn graddol gyflymu, ac fel uchafbwynt, tro sydyn ar y diwedd. Y mae'n weddol hawdd, felly, sylwi ar y mân wahaniaethau a geir mewn gwahanol ardaloedd. Ond byddai angen llawer o wrando amyneddgar a gofalus i brofi'n bendant fod y fath beth â thafodiaeth ym myd adar. Mae'r un aderyn yn amrywio rhyw gymaint ar ei gân ei hun, a gall adar o'r un rhywogaeth ganu'n wahanol i'w gilydd yn yr un gymdogaeth. Heblaw hynny, y mae tuedd mewn rhai adar i ddynwared adar eraill. Gall y ddrudwen ddynwared y fwyalchen neu gnocell y coed, ac ambell dro clywir y fwyalchen neu'r robin goch yn ceisio efelychu cân yr asgell fraith.

Sut y mae aderyn yn dysgu ei gân? Ai oddiwrth ei rieni, ynteu a yw'n ei hetifeddu? Bu peth arbrofi i'r mater hwn, a dangoswyd bod ambell aderyn yn canu'n wahanol i'w rieni os dysgir ef yn ieuanc, a'i gadw arwahan iddynt. Yn niwedd y ddeunawfed ganrif, gwnaed arbrawf yn Lloegr gan ŵr o'r enw Daines Barrington. Cymerodd ef gyw robin goch, a'i roi i'w fagu gan eos. Ymhen amser, yr oedd cân y robin yn gymysgedd o gân eos a chân aflafar nad oedd yn perthyn i'r un aderyn. Gwnaed arbrofion tebyg yn yr Unol Daleithiau. Magwyd cywion heb ganiatau iddynt glywed yr un aderyn hŷn yn canu, ac ymhob achos datblygasant gân wreiddiol o'u heiddo'u hunain. Dengys yr arbrofion hyn fod rhai adar , o leiaf, yn dysgu eu cân oddi wrth eu rhieni. Efelychu'r gân a glywant a wnant. Er hynny, y mae tuedd gref ynddynt i ganu fel eu rhieni, oherwydd pan ddychwel y cywion at eu rhieni, a chlywed eu cân, dysgant hi ar unwaith.

Y mae adar eraill na ellir newid dim ar eu cân. Er iddynt gael eu cadw draw oddi wrth eu rhieni, ac allan o glyw pob aderyn, canant yn y ffordd y dylent ganu. Y mae'n ymddangos bod eu cân hwy wedi ei hetifeddu'n llwyr, ac nid yw'n dibynnu dim ar ddynwared. Dengys arbrofion yn yr Almaen mai cân felly sydd i'r siff-saff, y wennol, a'r troellwr bach. (grasshopper warbler) Ac y mae'n rhaid mai cân felly sydd i'r gog. Dychwel y rhieni i'r gwledydd cynnes yng Ngogledd Affrica, a gadael y cywion i'w fagu gan adar eraill. Ond er hynny fe ddysgant yr un gân yn union â'u rhieni, ac ambell dro cawn ei chlywed ganddynt cyn iddynt ymadael yn yr hydref.

Paham y bydd adar yn canu? Mewn moment sentimental, dywedwn eu bod yn canu am eu bod yn hapus, neu am eu bod yn moliannu eu Creawdwr, ac yn ymuno yng Nghytgan y Greadigaeth, ac yn y blaen. Hawdd yw bod yn anthropomorffig yn ein syniadau am yr adar, a phriodoli iddynt, yn hollol ddisail deimladau dynol, a'u disgrifio'n llwyr mewn ffordd ddynol. (Y mae'n bosibl bod yr un mor anthropomorffig wrth ddisgrifio dioddefiadau'r creaduriaid is.  Dyna berygl Nesta Pain yn y llyfr diddorol hwnnw "Lesser Worlds") Dywedodd rhyw athronydd nad oes dim mor anwybodadwy â meddwl plentyn bach. Ond beth am feddwl aderyn neu anifail? Y cwbl y gallwn ei ddweud am ambell aderyn yw ei fod wrth ganu yn ymddangos i mi fel pe bai'n hapus. Amheuaf yn fawr a ddylem briodoli i'r adar y ddawn i addoli!

Am fod cân yr adar ar eu gorau yn ystod tymor y magu, cysylltodd rhai y gân â greddf rhyw. Tybiwyd mai unig bwrpas cân y ceiliog yw ennill clust a sylw'r iâr, a'i phlesio hi. Ond fel y cawn weld yn yr ysgrif nesaf, dangoswyd yn achos y robin goch, nad dyma'r gwir i gyd am ei gân ef. Y mae'r robin yn canu mwy <u>cyn</u> iddo ffeindio cymar nag ar ôl iddo'i ffeindio. Ac y mae'n canu ar ei orau pan fydd yn ymladd. Ymddengys mai prif bwrpas y robin wrth ganu yw hysbysu adar eraill o'i diriogaeth ei hun, a'u rhybuddio rhag dyfod i'r diriogaeth, a hysbysu'r ieir sy'n chwilio am gymar o'i bresenoldeb yn y diriogaeth a'i barodrwydd i dderbyn un ohonynt. Y mae cân y robin goch, yn ôl David Lack, yn fwy o ryfelgan nac o gân serch.

Ac eto i gyd, er fod i gân yr adar bwrpas biolegol, ni allwn beidio â theimlo eu bod ar brydiau yn canu am eu bod yn mwynhau canu, ac yn mynegi eu hapusrwydd wrth ganu. Fe gân aderyn mewn cawell; weithiau'n well yno na chyn iddo gael ei ddal. Y mae llawer o ganu y tu allan i dymor y caru, a'r magu, ac anodd credu nad llawenydd a bair i ambell aderyn ganu ar ddiwrnod sydyn o braf yn yr hydref neu'r gaeaf. A pha bwrpas beiolegol sydd i gân

*"yr ehedydd ar ei aden,*
*a'i gân bêr yn uchder y nen"?*

Efallai, wedi'r cwbl, os caf arall-eirio Williams Parry:

*"Nes na'r gwyddonydd at y gwir ddi-goll*
*Ydyw'r bardd, sydd yn gelwydd oll."*

Rhoddwyd llawer o sylw'n ddiweddar i gân yr adar pan gwyd yr haul – cytgan y wawr fel y'i gelwir ['côr y wig' sy'n arferedig erbyn hyn]. Trefnwyd rai blynyddoedd yn ôl, i wylwyr trwy Brydain oll i wrando ac i nodi'n ofalus pa bryd y dechreuai pob aderyn ganu yn y bore. Ymhob man dechreuent ganu yn yr un drefn, gyda'r ehedydd yn gyntaf, a'r fronfraith yn ail, a'r robin goch a'r fwyalchen yn dilyn.

Nodwyd hefyd pa bryd y dechreuai un math arbennig o aderyn ganu mewn gwahanol rannau o'r wlad. Dewiswyd y fronfraith, a chafwyd ei bod hi'n dechrau canu yn gynt yng ngogledd yr Alban nac yn unman arall, am mai yno y mae'r wawr yn torri gyntaf. A dilynai cân y fronfraith daith y wawr o'r gogledd i'r de, gan gyrraedd yn olaf oll, dde-orllewin Lloegr. Y mae'r ffigyrau am Mehefin 5, 1949, gennyf, a dyma rai ohonynt. Yn Angus, dechreuodd y gân am 1.51a.m, ond ni ddechreuodd yn ngogledd Lloegr tan 2.22. Dechreuodd yn Norfolk am 2.15, ond yr oedd yn 2.49 arni'n cyrraedd Cymru, ac yn 3.10 cyn iddi gyrraedd Cernyw. Felly, cymerodd y gân rhyw awr a chwarter i deithio o un pen i Brydain i'r llall, ac y mae hyn yn cyfateb yn weddol agos i'r amser a gymer y wawr i deithio'r un pellter.

Yn nechrau'r 1950au, tua'r cyfnod y bu i Harri Williams ymhel a'i brofiadau adaryddol, bu Mary Parry (Mary Vaughan Jones yn ddiweddrach, athrawes, hanesydd lleol a naturiaethwraig) eisoes yn cyfranogi ar ei fferm ym Mhlas Glanrafon, Waunfawr, yn yr astudiaethau roedd Harri Williams yn dyfod yn ymwybodol ohonynt. Dyma enghraifft o'i chofnodion:

*Dusk Chorus, May 28th. 1950 Weather. Observation started at 8-50 Warmer and lighter than on the 27th although the sky was overcast (high cloud). Day had been very fine) slight SW breeze. Time/species/f c or s/number*

*9-07/swift/f/1*
*9-08/wagtail/f/1*
*9.10/woodpigeon/f c/4 9-*
*11/blackbird/bathing/1*
*9-12/seagull/f/40*
*9-28/seagull/f/12*
*9-28/chaffinch/f&s/1*
*9-34/cuckoo/s/1*
*9-36/wren/s/1 9-38/blue tit/c/1*
*9-39/swallow/f & c/1*
*9.40/carrion crow/f/1*
*9-43/chaffinch/c/1*
*9.45/house sparrow/f (to nest)/1*
*9-46/rook/f/1*
*9-47/pigeon/f/1*
*9-55/blackbird/s/3 or 4*
*9-58/robin/s/3 10-02/robin/s/2*
*10-03/curlew*
*10-04/robin/s/1*
*Observation ended 10-06*

## 4. CWERYLA

*"Robin goch a'r dryw bach*
*Fy nghuro i fel curo sach."*

Mae "oerwynt hydre'n gyrru y gawod ddail yn gad ddu" heibio fy ffenestr. Y mae'r dyddiau'n llwyd ac yn llaith, a'r hin yn dechrau oeri. Gadawodd adar yr haf am hin gynhesach, a distawodd cân orfoleddus yr adar a erys yma dros y gaeaf. Ond ail-ddechreuodd un ohonynt ganu eisoes. Fe'm deffrôdd y bore yma gyda'i nodau main hiraethus. Ar wahan i ambell sill gan y dryw, ac ambell sgrech gan y gwylanod o gyfeiriad y môr, dyma'r unig gan a ddaw i'm clyw y dyddiau hyn, a diolch amdani.

Y mwyaf hoffus o'r adar, yr agosaf atom, a'r hawsaf i'w adnabod ohonynt oll; ac eto ychydig iawn a wŷr y rhan fwyaf ohonom am y robin. Gwelsom ef yn pigo'r briwsion yn ymyl drws y tŷ, neu'n chwilio am bryfed yn y pridd ffres wrth inni balu yn yr ardd. Gwelsom ei nyth, efallai, mewn twll yn y goeden neu mewn gwrych, a darllenasom ei hanes yn gwneud ei nyth mewn lleoedd syfrdanol o annisgwyl, fel pot –jam, neu fag ar gefn beic, neu flwch-llythyrau, neu boced mewn côt garddwr. Gwelsom ei wyau, bump neu chwech ohonynt yn glwstwr bychan gwyn a choch ar waelod dwfn y nyth. Ac efallai y cawsom yr hyfrydwch o weld y cywion yn dechrau mentro allan i'r byd, yn lympiau blêr a brown, a'u cegau agored yn crefu'n barhaus am fwyd, a'u hymgais gyntaf i hedfan o'r nyth i'r llawr neu i'r clawdd agosaf yn drwsgwl a mentrus.
A dyna'r cwbl.

Hyd yn oed ymhlith yr adarwyr eu hunain, credid tan yn ddiweddar fod eu gwybodaeth o'r robin goch yn weddol gyflawn. Ond yn 1935 dechreuodd David Lack ar ei astudiaeth, a phan gyhoeddwyd ei lyfr yn 1941, synnwyd llawer o'r arbenigwyr pennaf gan y ffeithiau newydd a syfrdanol a ddaeth i'r golwg.

Y peth cyntaf a wnaeth Lack oedd dal pob robin goch yng nghymdogaeth ei gartref yn Nyfnaint, a rhoi modrwyau lliw ar eu coesau cyn eu gollwng yn rhydd. Gofalai roddi cyfuniad gwahanol o liwiau ar bob aderyn, ac felly gallai adnabod bob un ar wahan. Hawdd oedd dal yr adar yn y gaeaf, ac yn enwedig pan oedd y ddaear yn galed gan rew. Ond yr oedd rhai ohonynt fel pe'n mwynhau cael eu dal, ac am ddyfod i mewn i'r trap bob dydd. Yn wir, yr oedd un aderyn a ddeuai i mewn iddo saith neu wyth o weithiau'r un diwrnod!

Am fod ceiliog a iâr y robin goch yn edrych yn hollol yr un fath, anodd oedd i ornitholegwyr y gorffennol sylwi a oedd gwahaniaeth ymddygiad rhyngddynt. Ond gwyddai David Lack drwy sylwi ar liw'r modrwyau, pa un ai'r ceiliog ai'r iâr oedd yr aderyn a welai, a gallai gadw cyfrif o symudiadau ac arferion y ddau ryw ar wahan. A deuai i adnabod pob robin fel unigolyn.

Gwyddai'r arbenigwr fod llawer o adar, a'r robin yn eu plith, yn sicrhau tiriogaeth iddynt eu hunain yn yr hydref, ac yn ei amddiffyn dros fisoedd y gaeaf trwy ganu a bygwth ymladd. Dichon mai pwrpas rhywiol oedd i hyn ar y cychwyn: sicrhau tiriogaeth i'r aderyn yn barod erbyn tymor y nythu a'r magu. Ond gall fod iddo bwrpas arall hefyd: cadw'r adar yn weddol gyfartal eu nifer dros diriogaeth arbennig sydd a'r bwyd ynddo'n brin.

Gwnaeth David Lack astudiaeth arbennig o fanwl o berthynas y robin â'i diriogaeth. Sylwodd fod y ceiliogod yn dechrau canu ac yn ymlid ymaith pob robin arall o'u tiriogaeth tua diwedd Awst. Ond sylwodd hefyd, a dyna'r wybodaeth newydd, fod rhai o'r ieir yn gwneud yr un peth, ac yn parhau i amddiffyn eu tiriogaeth eu hunain ar hyd misoedd yr hydref. Ac yna sylwodd fod sŵn y canu a'r brwydro'n tawelu. Yr oedd pob aderyn wedi sicrhau terfynnau ei diriogaeth ei hun, ac wedi ymsefydlu'n gadarn ynddi. Ond tua diwedd Rhagfyr daeth cynnydd eto yn sŵn y canu ymhlith y ceiliogod, a sylwodd ar yr ieir yn gadael eu tiriogaeth eu hunain, ac yn ymuno â'r ceiliogod i rannu tiriogaeth. Ac yn niwedd Mawrth sylwodd ar dymor y caru, a'r dodwy a'r magu yn dechrau, gyda'r iâr yn prysur adeiladu'r nyth.

Y mae i gân y robin le pwysig iawn yn yr holl ddigwyddiadau hyn. Nid yn aml ymhlith yr adar y ceir yr iâr yn canu. Ond profwyd yn bendant fod iâr y robin yn canu, gan Burkitt yn yr Iwerddon yn 1924, a chadarnhawyd hynny gan Lack. Yn yr hydref, pwrpas y gân yw amddiffyn y diriogaeth, ac y mae'r iâr sydd â thiriogaeth ganddi, yn canu'r un mor huawdl â cheiliog. Dim ond yn ei diriogaeth ei hun y bydd y robin yn canu, ac y mae hyn yn eu galluogi i benderfynu beth yw terfynau ei tiriogaeth. Amhosibl medd Lack, yw gyrru robin a fo'n canu, allan o'i diriogaeth. A phrif bwrpas y gân yw hysbysu pob robin arall "Hwn yw fy nhiriogaeth i!" Os daw robin arall i drespasu, clywir cân y perchennog ar ei gorau, ac fel arfer bydd y trespaswr yn dianc am ei fywyd. Y mae'r gân, felly, yn arbed aml frwydr. Ond ambell dro gwrthyd y trespaswr symud, er iddo glywed cân y perchennog, ac aiff yn fath o frwydr rhwng y ddau. A hyd yn oed wrth frwydro, bydd y perchennog yn dal i ganu. Hyn a barodd i Lack ddweud fod cân y robin yn fwy o ryfelgan nag o gân serch.

Y mae i'r robin, fodd bynnag, un erfyn arall heblaw ei gân, i'w arbed rhag gorfod brwydro at waed; a hwnnw, yn rhyfedd iawn, yw ei frest goch. Gwelir y robin weithiau yn sythu ger bron robin arall, ac yn gwthio allan ei frest fel pe bai am ei harddangos ar ei gorau. Tybid gynt mai pwrpas rhywiol oedd i hyn, ond gallodd Burkitt ( rhoes yntau fodrwyau lliw ar yr adar ) ddangos mai dau geiliog fydd yn aml yn ymsythu fel hyn o flaen ei gilydd, ac mai pwrpas y peth, fel arfer yw bygwth a dychryn, rhag i'r robin arall groesi'r ffin rhwng dwy diriogaeth.

A dyma eto beth anghyffredin am y robin goch: y mae'r iar mor lliwgar â'r ceiliog, a'r un mor gwerylgar. Y mae hithau, er mwyn arbed brwydro at waed, yn gallu dangos ei brest goch i rybuddio a bygwth.

Y mae ymarweddiad y robin yn ei diriogaeth ei hun yn hollol wahanol i'r hyn ydyw yn nhiriogaeth robin arall. Gartref, bydd yn canu, yn ymsythu, ac yn brwydro; ond oddicartref bydd yn dawel a llechwraidd, ac yn barod ar unwaith i ddianc adref os ymosodir arno. Gwelodd David Lack hyn yn glir pan ddaliodd un robin mewn cawell yn ei diriogaeth ei hun. Daeth robin arall, un arbennig o ffyrnig, o'r diriogaeth drws nesaf, i ymyl y trap, ac ar unwaith, o glywed y canu a gweld yr ymsythu o'r cawell, aeth yn wylaidd, a ffôdd am ei fywyd. Symudwyd y cawell i'r diriogaeth arall, a'r tro hwn yr oedd pethau'n hollol wahanol. Yr aderyn y tu allan yn awr, perchennog y diriogaeth, a ganai'n huawdl ac ymsythu'n bowld, a'r aderyn arall oedd gynt mor hyf, yn llechu'n wylaidd yn y cawell.

Ceir ffraeo'n aml rhwng dau robin ar y ffin rhwng eu tiriogaethau. Yn arbennig tua diwedd yr haf pan fydd terfynau'r tiriogaethau'n cael eu sefydlu. Ac yn arbennig hefyd pan ddaw'r iâr yn nechrau'r flwyddyn i rannu'r diriogaeth gyda'r ceiliog. Nid yw hi ar y dechrau yn sicr o'r ffin, a bydd yn aml yn ei groesi. Ond dychrynir hi'n ôl gan gân y cymydog, a buan iawn, o gofio ymhle yr ymosodir arni, y daw i wybod ymhle y mae'r terfynau, ac ymhen rhyw ddeuddydd bydd cystal â'r ceiliog am gadw o'u mewn.

Ar ddechrau'r flwyddyn clywir cân y robin yn uwch nag y bu ers rhai wythnosau, a hynny am fod y ceiliogod yn awr yn hysbysu'r ieir eu bod yn barod i dderbyn cymar i mewn i'w tiriogaeth. Dyma'r ffordd i'r iâr wybod ymhle y gall ffeindio cymar, ac wedi iddi gael ei derbyn, bydd ei chân hi ei hun yn distewi'n gyfangwbl, a bydd cân y ceiliog yn distewi ryw gymaint, ond pan fo galw amdani i amddiffyn y diriogaeth. Ond os cyll y ceiliog ei gariad ( ac y mae

hynny'n digwydd ym myd yr adar hefyd! ) cynydda'i gân unwaith eto, hyd nes iddo gael cymar arall, ac yna distawa drachefn.

Sylwer felly, mai <u>cyn</u> cael cymar, ac nid wedyn, y mae'r robin yn canu fwyaf. Prin y gellir galw ei gân yn gân serch. Nid i blesio'r iâr y cân, ond i hysbysebu amdani.


Ychydig iawn o adar fydd yn canu wrth garu. Ond sylwodd Lack, Burkitt ac eraill fod canu'r ceiliog yn cynyddu pan ddaw'r adeg i'r cywion adael y nyth, a thybir mai pwrpas biolegol sydd i hyn. Y mae'n bwysig i'r cywion ddysgu cân eu rhieni er mwyn gallu ymdaro yn y byd. Daw'r adeg, ymhen ychydig wythnosau, iddynt hwythau sicrhau tiriogaeth, ac ni allant wneuthur hynny heb fod wedi dysgu'r gân briodol. Ac fel y gwelsom yn y bennod diwethaf, dynwared cân y rhieni a wna cywion y robin, ac y mae'n bwysig iddynt felly ei chlywed ar ei gorau cyn iddynt adael y nyth a mynd allan i'r byd. Heb gân ni allant feddiannu tiriogaeth, ac heb feddiannu tiriogaeth, ni allant feddiannu cymar a magu cywion.

Y mae'n digwydd weithiau fod cyw yn meddiannu tiriogaeth y drws nesaf i un o'i rieni. Ond nid yw hynny'n lleihau dim ar rymuster y canu a'r swagro a'r cweryla rhyngddynt er mwyn sicrhau'r terfynau. Gall ceiliog a iâr, hyd yn oed, a fu'n gymheiriaid yn ystod yr haf, gweryla â'i gilydd yn ffyrnig yn yr hydref os ceisiant feddiannu tiroedd cyfagos. Nid yw cwlwm teuluol yn parhau'n hir. Ymddetyd yn yr hydref, a bydd pob robin goch yn troi'n unigolyddyn rhonc, ac nid yw fel pe'n adnabod aelodau ei deulu ei hun.

Sonia David Lack am gerdyn Nadolig yn dangos llun tri neu bedwar robin ar gangen gyda'u gilydd, a dywaid na ellir meddwl am ddarlun mwy anghymwys ar gyfer tymor tangnefedd ac ewyllys da. Pe digwyddai'r fath beth y tu allan i ddychymig yr artist, byddai'n hylabalŵ ofnadwy ar unwaith, a'r adar yng ngyddfa'u gilydd! Ni ellid meddwl am aderyn mwy anghymwys na'r robin goch i gynrychioli ysbryd y Nadolig. Treulia'r robin y rhan fwyaf o'i amser, ar wahan i'r amser a rydd i fwyta ac i gysgu, yn cweryla ac yn bygwth cweryla.

Ac eto, anaml iawn y gwelir cweryl rhwng dau robin yn troi'n ymdaro. Fel arfer bydd perchennog y diriogaeth yn llwyddo i ymlid ymaith y trespaswr, ac y mae yntau'n fodlon ymadael heb wrthwynebu. Y mae sustem y tiriogaethau, a'r gân, a'r frest goch, offerynnau'r bygwth a'r cweryla, yn arbed rhag i gweryl droi'n frwydr waedlyd.

Yn hyn o beth efallai y gall dyn ddysgu rhywbeth oddi wrth y robin goch. Anaml y bydd cweryl am dir yn darfod yn hanes cenhedloedd y ddaear heb i'r gweryl droi'n frwydr waedlyd. O leiaf, hyd yn ddiweddar. Yn awr y mae polisi a elwir yn "brinkmanship," polisi'r bygwth a'r cweryla er mwyn gweld pa mor bell y gall gwlad fynd i fynnu ei ffordd ei hun. Efallai'n wir fod arfau dinistriol ein dyddiau ni yn gyrru'r cenhedloedd i fabwysiadu dull o gweryla tebyg i un y robin goch!




Mewn erthygl yn ei lyfr diddorol "King Solomon's Ring", sonia Konrad Lorenz am y camgymeriad dybryd a wnawn ynglŷn â rhai creaduriaid. Ystyriwn y golomen yn arwyddlun o heddwch, ond gwelodd Lorenz ddwy golomen mewn cawell wedi cael brwydr waedlyd, un yn gorwedd ar ei hyd ar waelod y cawell, ei chefn a'i gwddw'n waed i gyd, a'r llall uwch ei phen yn dal i bigo'n ddidrigaredd yn y clwyfau. Gwelodd hefyd ddwy ysgyfarnog yn brwydro'n ffyrnig, ac yn taro 'i gilydd a'u pawennau, yn gryf ac yn gyflym ac yn ddidostur. Ymddengys nad yw'r creaduriaid a dybiwn ni sy'n addfwyn, mor addfwyn wedi'r cwbl.

Ond gwelodd Lorenz hefyd, ddwy flaidd, un yn ieuengach ac yn wannach na'r llall, yn paratoi am frwydr, ysgyrnygu dannedd at ei gilydd, ac yn bygwth ambell frathiad. Y mae'r gryfaf o'r ddwy yn gyrru'r llall i gyfeiriad congl y cawell, a phan lithra honno yn erbyn y ffens, mae'r llall ar fin ymosod arni. Ond yna, er syndod i Lorenz, y mae'r brwydro'n darfod. Y mae'r ddwy flaidd yn sefyll ochr yn ochr ac yn hollol lonydd, a'r wannaf yn troi ei phen i ffwrdd ac yn cynnig i'r gryfaf ei gwddf i'w frathu os mynn. Gallai'r brathiad yn y lle hwn fod yn un marwol, ond nid yw'r llall yn gwneud dim ond dal i ysgyrnygu dannedd. Ac ymhen amser, wedi ychydig o frathu awyr, y mae'r frwydr drosodd, a'r flaidd gyntaf yn cilio. Ymddengys fod rhyw reddf yn peri i'r blaidd beidio â brathu pan gynigia'r llall ei gwddf iddi'n hollol ddiamddiffyn, a gwelodd Lorenz yr un reddf ar waith mewn rhai creaduriaid eraill, fel gwylanod a thyrcwn. A sylwodd mai'r creaduriaid sydd â'r gallu ganddynt i wneud llawer o niwed i'w gilydd, y rhai a ystyriwn y mwyaf gwaedlyd ac ymladdgar, yw y rhai sydd, mewn cweryl a'u gilydd, yn barod i osgoi brwydr at waed pan fo un yn cynnig plygu i'r llall yn hollol ddiamddiffyn.

Ac ar y diwedd awgryma Lorenz y cyngor paradocsaidd, i ddyn efelychu'r blaidd yn hytrach na'r golomen!

5. CEFNFOR

*Aeres gain, penadures côr, - y dwfn*
*A dawn y dygyfor,*
*Ei lloches yw mynwes môr,*
*A'r graig arw yw ei goror.*

Isfoel ( I'r Wylan )

Bum yn South Stack flynyddoedd lawer yn ôl yn gweld y goleudy enwog, a'r atgof cliriaf a arhosodd gyda mi, oedd o'r cannoedd o risiau yr oedd yn rhaid eu dringo. Y pryd hynny nid oedd gennyf ddim diddordeb mewn adar, ac ni sylwais, y mae'n rhaid, ar drigolion dirif y creigiau enfawr uwchben y môr, oherwydd ni erys yr un atgof amdanynt.



**Llun: Ynys Lawd, Alun Williams**

Ond eleni bûm yno eto; y goleudy a'r grisiau yn cael llai o'm sylw y tro hwn, a'r creigiau yn brif destun fy niddordeb. Yr oedd yn ddiwrnod heulog ym mis Mai, a Môn ar ei gorau. Ei meysydd yn las gan dwf y gwanwyn, a lle y tarawai'r tonnau yn erbyn y creigiau, llinyn o arian gwyn yn cordeddu o'i chwmpas, ac yn gwahanu llwydni'r creigiau oddi wrth lesni'r môr.

Fel y dringwn i lawr i gyfeiriad y goleudy, edrychwn yn ddisgwylgar i'r chwith, ac o'r diwedd, gyda thro sydyn yn y grisiau, gwelwn yr adar yn gynulleidfa gref; gannoedd ar gannoedd ohonynt, yn sefyll yn rhengoedd twt ar y creigiau. Gwibiau rhai ohonynt yn gyflym allan i'r môr, ac eraill yn dychwelyd yr un mor gyflym i gymeryd eu lle. A sylwais ar rai yn ddotiau bach du a gwyn yn nofio ar wyneb y dŵr, ac yn codi i fyny ac i lawr gydag ymchwydd y tonnau.

Dyma'r adar y deuthum ar daith o ddeugain milltir yn arbennig i'w gweld – rhai o adar y cefnfor. Treilia'r rhain y rhan fwyaf o'u hamser ymhell o'r tir, yn hedfan ac yn nofio, ac yn bwydo ar bysgod a phlancton. ( y casgliad o greduriaid bach byw a geir yn y dyfnfor, sy'n foddion cynhaliaeth i bysgod ac adar y môr ) Dônt i'r lan am ychydig o wythnosau bob haf i ddodwy a magu

cyw, a dyna’r unig gyfle a gaiff y rhai ohonom nad ydym yn tramwyo’r moroedd, i’w gweld.

Sylwais fod dau fath o’r adar hyn ar y creigiau y diwrnod braf hwnnw o Fai. Yr oeddynt i gyd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn hollol debyg i’w gilydd, yn dywyll eu pen a’u cefn, ac yn wyn odditanodd, a’u hadain yn fychain, ac yn gwibio’n gyflym wrth iddynt hedfan. Ond gwelais yn fuan fod rhai yn dduach eu cefn a’u pen na’r lleill, ac o edrych drwy’r sbienddrych, fod eu pig yn llydan, a streipen wen ar ei thraws. Y llurs ( razorbill ) oedd y rhai hyn, a’r gwylog, neu’r heligog ( guillemot ) oedd y lleill. A dyma hwy, yr adar y gellir eu gweld yn yr haf yn heidiau niferus ar lawer o greigiau serth o gwmpas ein glannau. Bûm yn eu gwylied yn ystod yr haf oddi ar Ben y Gogarth, ger Llandudno, ac oddi ar Drwyn Dinmor, rhyw filltir o Benmon, ac ni flinais ar eu gwybio cyflym a’u gwichiadau treiddgar.

Y mae un math o’r adar hyn nad wyf eto wedi ei weld, sef y pâl. ( puffin ) Fel y mae’r enw Saesneg ar yr ynys yn awgrymu, y mae ef yn nythu ar Ynys Seiriol, yn ogystal ag ar Ynys Cybi. Fe’i ceir hefyd ym mhen draw Llŷn, yn y Cei Newydd, Sir Aberteifi, ac yn Sir Benfro, ac ym mhenryn Gŵyr. Y mae’n hawdd i’w adnabod, gyda’i big llydan a lliwgar, yn las, melyn a choch yn yr haf, a’i fochau’n llwydolau.

Fel arfer, y mae’r adar hyn yn dodwy un wy yn unig, ac ni ânt i fawr o drafferth gyda’u nyth. Gwnaiff twll yn y graig, neu dwll cwningen yn y ddaear uwch ben y creigiau y tro iddynt yn iawn. Y mae’r pâl, fel rhai eraill o adar y dyfnfor, cyn gorffen magu’r cyw, yn ei gadael yn y nyth i ymdaro drosto’i hun. Ymhen wythnos daw yntau allan o’r nyth ryw noson, i chwilio am fwyd. Ni all ehedeg, a chan ymbalfalu’n fler, syrth i lawr y creigiau, a llithra i’r dŵr. Ac yno y mae yn ei gynefin; gall nofio’n ddidrafferth, a gŵyr ymhle i gael ei fwyd. Fel pob creadur arall, etifeddodd y pâl o orffennol pell ei hil, y greddfau sy’n briodol iddo, y greddfau sy’n ei alluogi i ymgynnal yng nghanol peryglon byd a bywyd. Fe’i genir gyda math ar “lawlyfr rheolau “ ar sut i fyw, yn rhan o’i gyfansoddiad.

Bûm am dro at y South Stack eto tua diwedd Awst, a daeth rhyw deimlad hiraethus i’m meddiannu wrth weld y creigiau i gyd yn wag; y gynulleidfa gref a swnllyd wei diflannu, a dim ond ambell wylan yn hedfan yn gwynfanus o amgylch y lle, ac ambell gyw gwylan ar y llethrau uwchben y creigiau. Ac aeth fy meddwl yn ôl yn syth at ambell brynhawn Sadwrn yn nechrau haf pan oeddwn yn fachgen, a minnau’n teimlo’r chwithdod o weld neb o gwmpas y

cae peldroed yn ymyl fy nghartref yn y ddinas fawr. Y lle y bu miloedd ar filoedd yn tyrru bob Sadwrn, yn wag a distaw a di-fywyd. Ac yn awr, ar y graig fawr yn ymyl y lli, lle y bu tyrru a gweiddi, yr oedd gwacter a thawelwch. Ac er fod ymwelwyr lawer yn dringo'r grisiau at y goleudy, a sŵn y tonnau a'r gwylanod yn gymysg â'u parablu a'u chwerthin, i mi yr oedd y lle yn ymddangos yn wag ac yn unig.

Dychwel y llurs a'r gwylog i'r dyfnfor, ac yno y byddant bellach tan y gwanwyn. Crwydrant ymhell i'r gogledd, rhai ohonynt cyn belled â glannau Norwy a Môr y Baltig. Ac o ddeheudir Cymru, efallai mai i'r de yr ânt, i gyfeiriad Bae Biscay, a Phortiwgal a Môr y canoldir. Ond gall y pâl fynd yn bellach fyth. Cafwyd dau gyw y rhoddwyd modrwyau arnynt ar ynys St Kilda, yn yr Alban, wedi hedfan cyn belled â Newfoundland yn eu blwyddyn gyntaf. Ac ni ddaw'r pâl yn ôl i'w ardal frodorol, o angenrheidrwydd, i fridio. Y mae'n eithaf posibl y bydd yn magu ei gyw gan milltir i ffwrdd o'r lle y gwelodd olau dydd gyntaf.

Uwchben trwyn Dinmor y gwelais un arall o adar y dyfnfor, yr wylan goesddu (kittiwake). Ni welir yr aderyn hwn ymhlith y gwylanod eraill ar draeth a thywod. Daw yntau at ddibyn serth uwchben y môr i nythu yn yr haf, ac am wedill y flwyddyn bydd yn dilyn y pysgod a'r plancton am y dyfnfor. A chofiaf yn dda y diwrnod y'i gwelais gyntaf. Yr oedd cwmni ohonom wedi troi i'r chwith o'r ffordd sy'n arwain i Benmon, ac wedi cerdded ar draws dau neu dri o gaeau cyn cyrraedd at y dibyn a wynebai Draeth Coch a'r Benllech a Moelfre. Anodd curo'r olygfa o'r llecyn hwn: mynyddoedd serth Arfon, y ddwy Garnedd a'r Llwydmor a'r Foel Fras, yn syth y tu ôl inni, y goleudy ac ynys Seiriol i'r dde, a Phen y Gogarth ar y gorwel o'n blaen, traethau di-rif "Môn dirion dir" yn gwthio eu penrhynau main ymhell i'r môr, a phwynt Lynas y pellaf ohonynt i gyd.

Ond wedi dringo dros wal go sigledig, a chyrraedd ymyl y dibyn, ar i lawr y syllem, a gwelsom y gwylanod coesddu yn gwibio mewn cylchoedd trefnus odditanom. Sylwasom ar ymyl pellaf eu hadennydd yn berffaith ddu: "fel pe baent wedi eu trochi mewn inc " – dyna gyfarwyddyd y llyfr adar ar sut i'w hadnabod. (Y mae sbotiau duon ar adenydd rhai o'r gwylanod eraill, ond ar yr wylan goesddu yn unig y ceir y duwch fel triongl perffaith ddu.) Gwelsom hefyd fod ei phig yn felyn, a'i phen yn wyn, gyda sbotyn du o gwmpas y llygaid.

Ac yna sylwodd un ohonom ar rai o'r cywion yn llechu ar y creigiau, a phawb yn troi i edrych ar y fath ryfeddod o brydferthwch. Fel arfer y mae cywion adar yn ddi-siâp ac yn ddi-liw, o'u cymharu â'u rhieni. Gwelem rai o gywion y gwylanod

eraill yn ymyl, yn drwsgl, ac yn flêr eu plu, ac yn frith ac anelwig eu lliw. Ond yr oedd cywion yr wylan goesddu yn batrwm graenus o ddu a gwyn, gyda'r duwch yn linellau clir a chain ar gefn y gwddf, ar draws yr esgyll ac ar ymyl y gynffon. Dyma beth go eithriadol ym myd yr adar – cyw sy'n brydferthach na'i rieni.

Ond nid wyf wedi sôn eto am y darganfyddiad a roes fwyaf o foddhad imi'r haf diwethaf. Y diwrnod ym mis Mai y bûm yn South Stack, yr oeddwn ar fin gadael y grisiau a'r creigiau, a throi ymaith yn ddigon anfodlon am y modur, pan gyfarfûm â dau ŵr ieuanc yn gwylied yr adar fel finnau. Hawdd gweld a deall ar unwaith eu bod hwy yn arbenigwyr, a chwarae teg iddynt, yn barod iawn i gyfarwyddo newyddian fel myfi. A hwy a dynnodd fy sylw at aderyn yr oeddwn i wedi ei anwybyddu, neu wedi methu sylwi arno, oherwydd ei debygrwydd i wylan benwaig. Ond yn awr sylwais arno'n fanwl. Nid oedd sbotiau duon ar ben pellaf ei adenydd llwyd, yr oedd ei wddf yn fyrach, a'i big yn hollol wahanol; yn felyn, a'i ffroenau ar ffurf pibell. Ac yr oedd yn hedfan yn hollol wahanol i wylan. Prin y symudai ei adenydd, a llithrau'n esmwyth drwy'r awyr gan fanteisio ar bob awel fach i'w gludo ymlaen.

Dyma'r ffwlmar, un arall o adar y dyfnfor, a thestun mwy o sylw ac astudiaeth yn ystod ein cyfnod ni nag odid unrhyw aderyn arall am resymau y caf sôn amdanynt yn yr ysgrif nesaf.

Clywais ychydig yn ôl am gwestiwn yn cael ei ofyn ar y teledu i'r Brains Trust. Gwraig wedi dyfod ar fordaith o wlad arall i'r wlad hon, wedi sylwi ar y gwylanod yn dilyn y llong, ac yn gofyn ai'r un gwylanod oedd yn dilyn ar hyd y ffordd. Yr oedd James Fisher ar y panel y prynhawn hwnnw, a chafwyd, felly, ateb awdurdodol i'r cwestiwn. Na, nid yr un gwylanod oedd gyda'r llong yn cychwyn ac yn glanio. Gwylanod y wlad dramor a ddilynai'r llong am yr ugain milltir cyntaf, ac yna, nid gwylanod o gwbl a'i dilynai ond ffwlmariaid. A gadawent hwythau'r llong o fewn rhyw ugalin milltir i'r tir, a byddai gwylanod y wlad hon wedyn yn dyfod i'w chyfarfod a'i dilyn nes iddi lanio. Efallai i rai o'r gwylanod ddilyn y llong yr holl ffordd, ond byddai hynny yn beth pur eithriadol.

Dilyn llongau ar y cefnfor, hedfan a nofio ymhell o dir – dyna sut y treulia'r ffwlmar y rhan fwyaf o'i amser, ac y mae yn nofiwr ac ehedwr cryf a hynawf. Yn y dŵr, ac yn yr awyr y mae yn ei elfen, ac nid yw'n gartrefol o gwbl ar y tir. Synnais y tro cyntaf imi sylwi arno'n ceisio symud o le i le ar y graig. Ni all sefyll ar ei draed, ac ni all gerdded: wrth beidio a cherdded, collodd y ddawn i gerdded. Yr hyn a wna yw ymlusgo'n fler, a rhydd ambell naid gyda chymorth ei adenydd. Dyna paham y mae yntau, fel adar eraill y cefnfor yn gwneud ei

nyth ar ymyl y graig, mewn man y gall gyrraedd ato heb orfod ymdreiglo ar wyneb y tir.

Gwelais lawer ar y ffwlmar yn ystod yr haf. Bûm yn gwylied pâr ohonynt yn chwilio am le i nythu ar Ben y Gogarth Fawr a gwylanod yn bygwth eu pigo bob tro y deuent yn agos, a minnau'n mwynhau gweld yr hedfan gosgeiddig yn fy ymyl. Gwelais hwy wedyn ar Drwyn Dinmor, yn eistedd yn dawel a distŵr ar eu nythod, a'r gwylanod coesddu, a'r llurs a'r gwylog yn gwibio'n stwrllyd o'u cwmpas.

A gwelais rai mewn dau le annisgwyl. Y Llungwyn, euthum am dro ar hyd y llwybr ger glannau'r môr o draeth Lligwy i Moelfre, ac ar graig uwchben traeth Moryn, gwelais hanner dwsin o'r ffwlmar, yn gymysg â'r gwylanod a nythai yno. Craig fechan oedd hon, ond yr oedd yn syth uwchben y môr, a digon o silffoedd cyflleus arni. Ac yr oedd tri phâr o'r ffwlmar, yn eu hymchwil am le i nythu, wedi mynnu lle iddynt eu hunain ymhlith y gwylanod, ar ôl tipyn o frwydr ar y dechrau, y mae'n bur debyg. Medrais gael o fewn dwy lathen i un o'r adar, a eisteddai'n dawel ar fymryn o welltglas crin a wna'r tro fel nyth.

Ym Mhorth Swtan, yr ochr arall i Sir Fôn, yn wynebu Ynys Cybi, y gwelais bedair ffwlmar arall. A'r syndod yn y fan yma oedd eu bod yn nythu uwchben traeth poblog, lle y gorweddai'r torheulwyr, ac y chwaraeai'r plant o fewn ychydig lathenni iddynt.

Yn ei ymchwil am le i nythu, dyma'r ffwlmar yn graddol ddyfod yn un o adar cyfarwydd glannau'r môr. Ond tybed faint o ymwelwyr y traethau a fydd yn sylwi arno, ac yn gallu gwahaniaethu rhyngddo a gwylan? Ym Mhorth Swtan, y prynhawn heulog y bûm i yno, nid oedd neb i'w gweld yn malio dim fod un o adar rhyfeddaf y cefnfor yn nythu yn eu hymyl.

Rhoddais dro heibio i rai o'r creigiau hyn yn nechrau Awst, a chwith oedd gennyf weld yr adar erbyn hyn wedi diflannu. Y mae'n rhaid na lwyddasant i ddodwy y flwyddyn hon, neu ni fuasent wedi ymadael mor gynnar. Tua diwedd Awst y bydd y rhieni'n gadael y cyw yn y nyth, ac yn troi'n ôl am y cefnfor, a bydd y cyw yn eu dilyn ymhen rhyw bythefnos. Gall y rhai na lwyddasant i ddodwy ymadael yn nechrau Gorffennaf, ac y mae'n rhaid mai rhai felly a welais i ar Drwyn Dinmor ac ar y graig yn ymyl Lligwy.

Ond yn ôl y daw'r ffwlmar i'r creigiau hyn ddechrau'r flwyddyn nesaf. Yn wir, efallai y bydd un neu ddau yn dychwelyd ar ddiwrnod go dawel yn Nhachwedd

neu Ragfyr, yn ymweld â’r graig, ac yn ymadael wedyn pan gyfyd y gwynt. Cynydda’r ymweliadau achlysurol hyn ar ddyddiau braf yn nechrau’r flwyddyn, a dechreuir meddiannu lle ar y creigiau i nythu. Daw’r rhan fwyaf yn ôl ym mis Ebrill, ac erbyn diwedd y mis bydd y creigiau’n llawn, a phob aderyn wedi hawlio lle i nythu. Tua diwedd Mai y daw’r wy, a bydd y gwryw a’r fenyw yn rhannu’r gwaith o eistedd arno, fesul pedwar dirnod yr un, ac ymhen chwech wythnos neu ddau fis bydd yr wy yn deor. Anaml iawn y bydd y ffwlmar yn dodwy mwy nag un wy, ac nid yw byth yn dodwy wy arall os collir y cyntaf.

Fel y pâl, y mae’r ffwlmar yntau yn crwydro ymhell. Cafwyd dau o rai ieuanc y rhoddwyd modrwy ar eu coesau ar St Kilda ym mis Gorffennaf 1948, wedi glanio yn Newfoundland mewn llai na blwyddyn. Crwydra’r adar ymhell i’r Atlantig, i fyny i’r gogledd, - i gyfeiriad Norwy ac Ynys yr Ia a Greenland - cyn belled ag y gallant, at ymyl yr ia, a chrwydrant i lawr i’r de cyn ised â llinell 40$^{o}$ efallai. Yno y mae’r plancton yn dechrau prinhau, ac oherwydd hynny, y pysgod yn prinhau hefyd, a chan mai ar bysgod a phlancton y mae’r ffwlmar yn byw, erys yn yr Atlantig rhwng y llinell 40$^{o}$ a therfyn y môr o rew yn y gogledd.

Edrychaf ymlaen at weld adar y cefnfor yn ôl ar eu creigiau y flwyddyn nesaf. Wedi dyfod u’w hadnabod hwy, y mae gennyf reswm ychwanegol dros ddyheu am y gwanwyn.

# 6. CYNYDDU

**Aderyn drycin y graig**

Mae'n rhyfedd meddwl heddiw, a ninnau ymhell i fewn i'r 21ain ganrif bod yr aderyn drycin-y-graig, sydd mor niferus a chyfarwydd i naturiaethwyr erbyn hyn, yn aderyn cwbl ddieithr yn nechrau'r ganrif ddiwethaf. Un cofnod yn unig sydd wedi ein cyrraedd o'r ganrif cynt, yn 1890 o Ddinbych y Pysgod, wedi ei faglu ar lein bysgota penfras. Yn y gogledd doedd HE Forrest yn 1907 ond yn gallu rhestru llond llaw o adar crwydrol yn ei glasur The Vertebrate Fauna of North Wales.

Heddiw mae'r sefyllfa yn dra gwahanol, a phrin yw'r rhywogaethau sydd wedi mwynhau gweld eu cynnydd yn cael ei gofnodi mor drylwyr a'r aderyn drycin hwn ers ei ymsefydliad cyntaf yng Nghymru. Y James Fisher 'obsesiynnol' fu'n gyfrifol am olrhain hanes ei wladychiad dros ynysoedd Prydain yn 1952 o'u hunig gadarnle gwreiddiol ar ynys St Kilda bellennig. Dangosodd Fisher i'r rhywogaeth nythu ar St Kilda - a chyflenwi bwyd i'r ynyswyr - ers canrifoedd lawer. Mae'r rhesymau am y ffrwydriad yn eu niferoedd mewn ychydig flynyddoedd yn ddirgelwch i wyddonwyr o hyd, ond damcaniaethir mai cynnydd yn y cyflenwad o sbarion o'r diwydiant pysgota ynghyd â newid genetig sydd i gyfrif am hynny. Beth bynnag y rhesymau mae'r aderyn angylaidd hwn sy'n marchogaeth y lli mor feistrolgar a'i gefnder agos yr albatros, yn cael croeso gan bawb sy'n taro llygad arno yn ei gynefin anghyfanedd a gwyllt.

Dyma un o gofnodion cynharaf o aderyn drycin y graig yn nythu i ffwrdd o Ynys St. Kilda ac yn fesur o gychwyn ffrwydriad y boblogaeth : *'In the Shetlands the Fulmar was only known as a visitor until 4 June 1878, when about a dozen pairs were observed hovering around the cliffs of the island of Foula, where they reared their young in some places in which according to the natives, no birds had ever bred before....'.* (Yarrell, W. (1884): A History of British Birds. Cyfrol 4)
Dyma un o gofnodion cynharaf o aderyn drycin y graig yn nythu i ffwrdd o Ynys St. Kilda ac yn fesur o gychwyn ffrwydriad y boblogaeth : *'In the Shetlands the Fulmar was only known as a visitor until 4 June 1878, when about a dozen pairs were observed hovering around the cliffs of the island of Foula, where they reared their young in some places in which according to the natives, no birds had ever bred before....'*. **(Yarrell, W. (1884): A History of British Birds. Cyfrol 4).**
Mae'r gweddill bellach yn hanes!



**Aderyn drycin y graig, Catrin Evans**

Soniais yn yr ail ysgrif am adar yn prinhau, ac yn diflanu o rannau o'r wlad. Yn yr ysgrif hon bwriadaf sôn eto am y ffwlmar, aderyn sydd ar gynnydd. Yn ôl yr awdurdodau, ni fu erioed gynnydd yn hanes unrhyw greadur gwyllt tebyg i'r cynnydd a fu yn hanes yr aderyn hwn yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf.

Treuliodd James Fisher, yr awdurdod pennaf ar y ffwlmar, ac awdur y gyfrol safonol y soniais amdani eisoes, bron ugain mlynedd yn astudio'r aderyn. Aeth ei ddiddordeb ynddo bron yn glefyd ("obsession" yw'r gair a ddefnyddir gan yr awdur ei hun ), a hawdd iawn yw ymgolli mewn diddordeb yn yr aderyn anghyffredin hwn. Heblaw fod ei gynnydd wedi bod mor anghyffredin, y mae'n perthyn i deulu anghyffredin, ( y Procellariiformes, a rhoddi'r enw swyddogol ) yr unig deulu o adar a fydd yn ei amddiffyn ei hun drwy chwistrellu olew drewllyd allan o'i big. Gwae'r neb a gaffo beth o'r olew hwn ar ei ddillad! Y mae bron yn amhosibl cael gwared o'r drewdod. Ac nid yw'n rhy ddiogel mynd at y cywion, na'r wyau hyd yn oed.

Edrydd James Fisher am rhywun yn yr Alban yn edrych ar gyw oedd ar fin deor, ac er ei syndod, gwelodd ef yn chwistrellu olew i'w  gyfeiriad trwy dwll ym mhlisgyn yr wy!

Anodd peidio ag edmygu Fisher yn ei sêl a'i drylwyredd yn ystod ei ymchwil. Cafodd gymorth cannoedd o wylwyr adar, dros bum cant ohonynt ym Mhrydain yn unig; darllenodd lyfrau a chylchgronau dirif, rai ohonynt wedi eu cyfieithu'n arbennig iddo o ieithoedd Ynys yr Ia a gwledydd Scandinafia, ac ymwelodd ef ei hun a'r mannau hynny lle y nytha'r ffwlmar, yn Spitsbergen, Ynys yr Ia, Ynysoedd Gorllewin Sgotland, ac yn Lloegr a Chymru. Am dros bymtheng mlynedd, nid aeth un haf heibio heb iddo ymweld â rhai o'r mannau hyn, un ai yn gweithio fel un o'r criw ar longau hwyliau, neu'n hedfan yn rhai o awyrennau'r Llu Awyr neu'r B.E.A.

Soniais yn yr ysgrif ddiwethaf am fy mhrofiad eleni yn gweld yr aderyn am y tro cyntaf, ar greigiau serth y South Stack a Phen y Gogarth, ac yn ymyl rhai o draethau Sir Fôn. Ond ychydig dros ugain mlynedd yn ôl ni welid y ffwlmar yn yr un o'r lleoedd hyn. Ym 1937 y cyrhaeddodd Gymru am y tro cyntaf. Yn y flwyddyn honno y gwelwyd dau yn hedfan yn ymyl Pen y Gogarth Fawr. Gwelwyd un y flwyddyn ddilynol, ac un ym 1939. Ym 1945 yr oedd tri yno, a'r flwyddyn honno, am y tro cyntaf, daethpwyd o hyd i wy ar un o'r creigiau. Erbyn hyn, ers tua deng mlynedd, y mae'r ffwlmar yn nythu bob haf ar Ben y Gogarth Fawr, a cheir ei nyth weithiau ar Ben y Gogarth Fach hefyd.

Ym 1938 y gwelwyd y ffwlmar gyntaf yn Sir Fôn – ar ynys Cybi, yn ymyl South Stack. Ond nid oes prawf pendant iddo lwyddo i fagu cywion yno eto ( o leiaf nid oedd prawf pan ysgrifennau Fisher ei lyfr ym 1950 ). Llwyddodd yn well mewn rhannau eraill o'r ynys. Gwelwyd tri o gywion yn ymyl Penmon ym 1947, ac un ym Mhorthwen ( ger Amlwch ) ym 1949.

O sir Fôn i Lŷn – yno yr aeth y ffwlmar nesaf. Gwelwyd un yn hedfan yn ymyl Ffynnon Fair, ger Aberdaron ym 1945, gwelwyd rhai ar Ynys Enlli ym 1948, ac yn ymyl Trwyn Cilan ym 1949. A beth am ddeheudir Cymru? Y mae'ndebyg mai o Ynys Manaw y daeth y ffwlmar i Ogledd Cymru, ond o'r Iweddon y daeth i'r De. Ym 1929 y cyrhaeddodd ynys Saltee Fawr ger glannau môr Wexford, ac oddi yno, y mae'n sicr, y daeth i Flimston, deheudir Penfro y flwyddyn ddilynol, ac i Skokholm y flwyddyn wedyn. Ac o Sir Benfro neidiodd i Sir Aberteifi, i Ramsey a'r Cei Newydd, ac yng Nghei Newydd y bridiodd am y tro cyntaf yn ne Cymru ym 1947. Am ryw reswm ni

fu Sir Benfro yn lle ffafriol i'r ffwlmar i fagu. Hyd at 1950, dau wy yn unig a gafwyd yn yr holl sir. Ond o Sir Benfro neidiodd y ffwlmar i sawl cyfeiriad; heblaw i'r gogledd i Sir Aberteifi, aeth i'r gorllewin i Rhosili ym Mhenryn Gwyr, ac i'r de i Gernyw.

Yr un patrwm sydd i hanes y cynnydd ym mhob rhan o'r wlad lle y ceir yr aderyn. Meddiannu lle ar ddibyn go amlwg yn wynebu'r môr i ddechrau, a neidio wedyn, ymhen blwyddyn neu ddwy, i ddibyn amlwg arall rai milltiroedd i ffwrdd. Ac yna meddiannu'r creigiau llai rhwng y ddau ddibyn amlwg, ac yn olaf oll, mentro i ymyl y traethau. Wedi neidio o Ben y Gogarth i Ynys Cybi, y meddiannwyd Penmon a Phwynt Lynas a Phorthwen, ac yn ddiweddarach wedyn y mentrwyd i lannau môr Benllech a Lligwy. Ac y mae'n debyg mai ar ôl y naid o Gybi i Lŷn y mentrwyd i leoedd fel Porth Swtan a Chilan.

Am rai blynyddoedd ar ôl meddiannu craig, nid yw'r adar yn llwyddo i fagu. Ar gyfartaledd, aiff rhyw bedair blynedd heibio cyn y gwelir wy neu gyw yn y nythod. Yn ôl Fisher, y rheswm am hyn yw mai adar ieuanc a ddaw i graig newydd i chwilio am le i nythu. Methant hwy â chael lle ar y creigiau a feddiannwyd eisoes gan adar hŷn, ac felly ânt i chwilio am greigiau llai amlwg, weithiau yn ymyl traethau poblog, dro arall ymhell i mewn yn y tir. Ac yn ôl y ddamcaniaeth hon, nid yw'r ffwlmar yn cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol am rai blynyddoedd. Treulia flynyddoedd cyntaf ei fywyd heb ddyfod yn agos i'r lan; ac ar ôl dechrau meddiannu lle ar y graig, aiff rhai blynyddoedd heibio wedyn cyn iddo lwyddo i fagu cywion.

Damcaniaeth yw hon, ac nid oes sicrwydd eto a ydyw'n gywir ai peidio. Anodd yw cadw golwg ar adar sy'n crwydro mor bell, a gwneud cyfrif manwl o'u hoedran a'u hymarweddiad, ond ymddengys mai hon yw'r ddamcaniaeth sydd yn rhoddi'r esboniad gorau paham y mae cymaint o'r adar hyn bob blwyddyn, heb fagu cywion, a phaham na fegir cywion am rai blynyddoedd ar ôl meddiannu lle newydd.

Ym 1939 gwnaeth Fisher a chyfaill iddo gyfrif manwl o 75 o leoedd newydd, a chawsant mai 4.4 blwyddyn oedd cyfartaledd y cyfnod rhwng diddordeb cyntaf yr adar mewn craig arbennig a'u llwyddiant cyntaf i ddodwy wy arni. Mewn saith o leoedd yn unig y cafwyd wy y flwyddyn gyntaf, ac mewn chwech o'r lleoedd yr oedd y cyfnod dros ddeng mlynedd. Y mae ynys Skokholm, yn Sir Benfro, yn arbennig iawn oherwydd ei hapêl at yr adar

ieuanc. Daeth y ffwlmar yno gyntaf yn 1931, ond hyd at 1950, ni lwyddodd yr un i fagu yno.

Erbyn hyn daeth y ffwlmar yn aderyn gweddol gyffredin mewn rhannau helaeth o Brydain ac Iwerddon. Erbyn 1950 yr oedd bron chwe chant o greigiau lle y gellid ei weld, ac yn 365 ohonynt yr oedd yn llwyddo i fagu cywion. Ac y mae'r creigiau hyn yn amgylchynu Iwerddon a Phrydain bron yn gyfangwbl. Ceid hwy erbyn 1950 ar hyd glannau môr deheudir Lloegr cyn belled â Suffolk. Diau erbyn hyn fod Ynys Prydain wedi ei hamgylchynu'n llwyr gan yr aderyn, ac y mae'r cynnydd yn parhau. Pwy ŵyr na ddaw'r ffwlmar yn aderyn mwy cyffredin ar ein glannau na'r wylan?

Ymhle a pha bryd y cychwynodd y symudiad syfrdanol hwn? Y mae'n weddol hawdd ateb erbyn hyn. Pedwar ugain mlynedd yn ôl, ni cheid y ffwlmar yn unman ym Mhrydain ond ar ynysoedd St Kilda, Gorllewin yr Alban; ynysoedd garw a gwyllt, heb neb yn byw arnynt ers 1931, a digonedd o ddibynau serth uwchben y môr, lle y gall aderyn fel y ffwlmar nythu a magu ei gywion yn ddidrafferth ac yn ddifraw. Yno y mae tua chwarter poblogaeth y ffwlmar ym Mhrydain, ac yn ôl un amcangyfrif, y mae bron ddeugain mil o nythod ar yr ynysoedd. Y mae'r aderyn yno ers canrifoedd, oherwydd ceir sôn mewn llyfr taith ym 1698 ( "A Late Voyage to St Kilda" gan Martin Martin ) am ei bresenoldeb ar yr ynysoedd.

Ond eto, nid o St kilda y daeth y ffwlmar i weddill Prydain – dyna farn Fisher erbyn hyn. Y mae'r gwasgaru yn cychwyn o Ynys yr Ia. Ar yr ynys hon hefyd bu'r ffwlmar yn nythu ers canrifoedd, oherwydd ceir sôn am yr aderyn yno ym 1640. ond ni fu cynnydd na symud syfrdanol tan y ganrif ddiwethaf. Rywdro rhwng 1816 a 1839 daeth y ffwlmar o Ynys yr Ia i ynysoedd Faroe, i'r gogledd o'r Alban. Ac ym 1878, llwyddodd y ffwlmar i fagu cywion ar ynys Foula, Shetland. A dyna gychwyn y cynnydd a'r ymledaenu ym Mhrydain. Meddiannwyd rhannau helaeth o ynysoedd y Shetland a'r Orkney, ac ar ddiwedd y ganrif cyrhaeddwyd tir yr Alban ei hun. Oddi yno symudwyd yn araf ond yn sicr i gyfeiriad y de, i lawr y glannau dwyreiniol a'r glannau gorllewinol i'r Alban. Cyrraedd Iwerddon ym 1911, a Lloegr ym 1922, ac yna parhau i symud ac amgylchynu Iwerddon a Chymru a Lloegr.

Tua 1750 y dechreuoodd yr ymledaenu mawr o gyfeiriad Ynys yr Ia, ac mewn dwy ganrif o amser ymledodd y ffwlmar dros bellter o ddwy fil o filltiroedd. Deng milltir neu fwy felly, bob blwyddyn. Ac y mae'r proses yn parhau, ac ni wêl Fisher fod terfyn iddo yn ymyl.

Y rheswm am yr ymledaenu, wrth gwrs, yw fod poblogaeth y ffwlmar wedi cynyddu'n aruthrol. Treblodd mewn cyfnod o ddwy ganrif. Rhwng 1939 a 1949, dyblodd ar St Kilda, ac ym Mhrydain yr oedd bedair gwaith yn fwy yn 1950 nag ydoedd ar ddechrau'r ganrif, ac yn ôl Fisher y mae'n debyg o ddyblu eto yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Y mae hyn oll yn beth hynod o eithriadol yn hanes creaduriaid byw. Yr unig greadur arall a ddangosodd y fath gynnydd mewn poblogaeth yw dyn.

Beth yw'r rheswm am y cynnydd enfawr hwn? Nid yw'r ffwlmar yn dodwy ond un wy fel arfer, ac y mae llawer nad ydynt yn dodwy am flynyddoedd. Ar un adeg, bu trigolion ynysoedd St Kilda yn lladd miloedd lawer o'r adar bob blwyddyn u'w bwyta, hyd nes iddynt ddarganfod fod y clefyd *psittacosis* yn cael ei drosglwyddo gan y cig. Tybiwyd gan rai fod y cynnydd i'w briodoli i'r ffaith fod y trigolion wedi peidio â lladd yr adar u'w bwyta. Eithr yr oedd y ffwlmar ar gynnydd ymhell cyn i hynny ddigwydd, ac fel y gwelwyd erbyn hyn, nid o St Kilda y cychwynodd yr ymledu, ond o gyfeiriad Ynys yr Ia.

Sut felly, y gallodd aderyn nad yw'n dodwy ond un wy, a hynny'n achlysurol, aderyn y bu cymaint o ladd arno er mwyn ei gig, gynyddu cymaint mewn nifer?

Nid oes sicrwydd pendant am y rheswm, ond damcaniaeth Fisher ydyw fod cysylltiad rhwng y cynnydd a chyflenwad bwyd. Bwyd yw'r ffactor pwysicaf yn hanes unrhyw greadur byw, ac i raddau helaeth iawn yn penderfynu ei gynnydd, a'i leihad, ei leoliad a'i ymarweddiad. Yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf, bu newid mawr yng nghyflenwad bwyd y ffwlmar. A dyn sydd yn gyfrifol am y newid.

Y mae'r ffwlmar wedi bwydo er cyn cof ar plancton, y bwyd a geir yn y moroedd, ac sydd yn gynhaliaeth i'r pysgod. Ac y mae yntau, fel y pysgod, yn dilyn ei fwyd. Fe'i ceir allan yn yr Atlantig, lle y ceir mwyaf o'r plancton, i'r gogledd o $40^{o}$. Eithr y mae'r ffwlmar yn bwyta hefyd, y braster oddi ar bysgod a morfilod. A damcaniaeth Fisher yw ei fod wedi dechrau cynyddu yn fuan wedi i ddyn ddechrau hela'r morfilod, a gadael llawer ohonynt yn farw ar wyneb y môr. Yr oedd hyn yn rhoddi i'r aderyn, ac yn arbennig i'r adar ieuanc, gyflenwad newydd hwylus o fwyd, a olygai fod llai o lawer ohonynt yn trengi. A'r hyn sy'n cadarnhau'r ddamcaniaeth yw mai heb fod

ymhell o Ynys yr Ia, lle y cychwynodd y cynnydd mawr, y ceid llawer o hela'r morfil.

Daeth dyddiau hela'r morfil i ben, ond yn eu lle daeth dyddiau'r llongau pysgota. A dyma gyflenwad well fyth o fwyd maethlon, yn ymyl cynefin y ffwlmar yng ngogledd yr Atlantig, yn cael ei fwrw i'r môr yn barhaus gan y llongau hyn, a'r gorchwyl o fagu cywion yn mynd yn haws, a gobaith y ffwlmar ieuanc am gael byw, yn llawer gwell. Blynyddoedd enbydus yw blynyddoedd cynnar y ffwlmar. Y mae at drugaredd y stormydd, ac ni ŵyr yn iawn ymhle ar y cefnfor eang y caiff ei fwyd. Y mae'n rhaid iddo ddibynnu bron yn gyfangwbl ar ei reddf. Gadewir y cywion ar y creigiau gan y rhieni, tua canol Awst i ymdaro drostynt eu hunain, cyn eu bod wedi dysgu hedfan na nofio na chwilio am fwyd. A mantais fawr iddynt hwy felly yw fod cyflenwad o fraster maethlon ar wyneb y môr, heb fod ymhell o'r nythod. Y mae un adarwr wedi sylwi mai yn ymyl porthladdoedd y llongau pysgota y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y ffwlmar. Diau mai yma yr oedd y cywion yn llwyddo orau i gadw'n fyw, ac yn dychwelyd yn heidiau y blynyddoedd dilynol i chwilio am greigiau i nythu arnynt.

A ddaw newid eto yn hynt y ffwlmar? Y mae rhai o'r llongau pysgota diweddaraf yn defnyddio peiriannau arbennig i droi sbarion y pysgod yn fwyd i wartheg. Os bydd cynnydd yn nifer y math yma o longau, dyna amddifadu'r ffwlmar o'i fwyd maethlon a hwylus. A fydd hynny'n peri iddo ddiflanu eto o'n glannau, ac yn cadarnhau damcaniaeth Fisher? Amser yn unig a ddengys.

Problem bwyd yw un o brif broblemau dyn hefyd. Ar un adeg, bu yntau'n gorfod symud o le i le i chwilio am ymborth. Y mae hanes am yr Hebrewr yn crwydro i'r Aifft ac i Moab mewn dyddiau o newyn, a'r hanes hwnnw wedi cynhyrchu dau o hanesion gorau'r canrifoedd, yr hanes am Joseph, ac am Ruth. Ond ohewydd dyfeisiadau a thrafnidiaeth fodern, y mae'r dyddiau hynny ar ben, mwy neu lai. Gall dyn anfon y bwyd i unrhyw ran o'r byd erbyn heddiw, yn hytrach na bod dynion eu hunain yn gorfod symud o'u cynefin.

Ond eto y mae cyflenwad bwyd yn parhau'n broblem i ddyn. Y mae ei boblogaeth yntau ar gynnydd, a rhybuddir ef gan ambell arbenigwr fel Boyd Orr, o'r hyn sydd yn ei aros. Ar hyn o bryd y mae dwy ran o dair o boblogaeth y byd heb ddigon i'w cynnal, a bydd y sefyllfa'n llawer gwaeth

yn fuan oni wneir rhywbeth. Er gwaethaf newyn, dal i gynyddu y mae'r boblogaeth, a dal i ddwysau y mae'r broblem.

Y gwahaniaeth rhwng dyn a ffwlmar yw fod gan ddyn wybodaeth o'r sefyllfa, a'r gallu trwy ei reswm a'i ddyfeisgarwch, i wynebu'r sefyllfa, ac nid oes raid iddo ef fodlonni ar ymateb yn reddfol iddi. Gall ef reoli'r sefyllfa, yn hytrach na gadael i'r sefyllfa ei reoli ef.

Dyfeisgarwch a rheswm dyn sydd i raddau'n gyfrifol am y broblem. Llwyddodd i wneud bywyd ei blant yn ddiogelach, ac i estyn hyd ei oes, drwy ymosod yn llwyddiannus ar glefyd a haint, a llwyddodd i wella'i amgylchiadau, a chyflwr ei fywyd. Dyna'r prif reswm paham y mae ei boblogaeth yn cynyddu. Ond yn awr bydd yn rhaid i ddyn ddysgu sut i atal y cynnydd, a sut i ychwanegu at gyflenwad bwyd y byd, a threfnu fod y cyflenwad hwnnw'n cael ei rannu'n deg. Ac i hyn, bydd yn rhaid i ddyn ddysgu ei reoli ei hun yn well, a rhwystro i'w ofn a'i reddf gwerylgar, ormesu cymaint arno.

Ni thâl ymateb i'r sefyllfa'n reddfol. Rhaid wrth reswm a chydymdeimlad a chyd-ddeall.

## 7. CRWYDRO

*"Nico annwyl ei di drostai,*
*Ar neges fach i Gymru lân …*
Cynan

*Er troi'n alltud a mudo – hithau'n awr*
*Ddaeth yn ôl i'r bondo,*
*O mor braf uwch muriau bro*
*Ei "thwit" "thwit" unwaith eto.*
Iorwerth H Lloyd ( I'r wennol )

Yr oeddym fel teulu, tua diwedd Gorffennaf, yn mynd heibio i Malltraeth, ac yn ôl ein harfer wrth basio'r lle, wedi stopio'r car i edrych pa adar a welem ar y llyn rhwng y ffordd a'r cob. Yr oedd y gwylanod yno, wrth gwrs, ambell hwyaden a choesgoch, ac un forwennol yn gwibio fel saeth i'r dŵr yr ochr draw i'r cob. Ac ar y glaswellt yn ymyl y llyn gwelem ŵr tal yn edrych trwy wydrau i gyfeiriad y llaid sych ym mhen draw'r llyn. O'r diwedd gwelsom ninnau'r aderyn, yn sefyll yn berffaith lonydd ar y llaid. Daeth y gŵr yn ôl i'r ffordd, yn cerdded yn hamddenol.

*" Beth ydyw?"* meddwn wrtho'n Saesneg.
*"Nid wyf yn siwr iawn"* meddai. *"A fuasech yn caniatau i mi wneud defnydd o'ch car am funud?"*
*"Ar bob cyfrif."*

Tynnodd allan o'r bag a gariai ar ei gefn, becyn bychan. Agorodd ef, a thynnodd allan ohonno ysbienddrych wedi ei blygu. Agorodd hwnnw i'w lawn hyd, a gwelsom ei fod yn un eithriadol o gryf. Yna tynnodd ei gap, gosododd ef ar y car, a chan bwyso'r ysbienddrych ar y cap, edrychodd ar yr aderyn drwyddo. Cefais innau edrych arno, a gwelwn yr aderyn yn glir – un mwy na choesgoch, ac eto heb fod yn ddigon mawr i fod yn gylfinhir. A'i big yn hir ac yn syth.

*" what is it?"* gofynnais.
*"Can't you see the black tail?"* gofynnodd yntau,
*"Yes"* meddwn innau, gan sylwi arni am y tro cyntaf.
*" It's a black-tailed godwit"* meddai.

*" Of course!"* meddwn innau. (Nid oeddwn am iddo feddwl fy mod yn hollol anwybodus! )

Ni welswn yr un o'r ddau rostog ( godwit ) o'r blaen, y gynffonddu na'r rhostog goch. ( Bar-tailed ) Ond gwyddwn fod y gynffonddu yn aderyn go brin yng Nghymru, ac nad oedd yn arfer nythu yn y wlad hon.

*"Isn't it rather early,"* gofynnais, *" for it to be about?"*
*"Oh no",* meddai, a rhyw olwg cyfrin yn ei lygaid, a goslef o barch yn ei lais… TH*EY'RE ON THE MOVE!"*

Meddyliais lawer am y frawddeg hon, ac am osgo'r un a'i llefarodd, wrth ddarllen yn ddiweddar am symudiadau'r adar, a'u crwydro o'r naill wlad i'r llall, o gyfandir i gyfandir, ac o fôr i fôr. Dyma'r pennaf rhyfeddod ym mhlith yr adar. Nid yw'r arbenigwyr eto wedi medru esbonio na deall sut y maent yn gallu ffeindio'u ffordd o le i le, weithiau am filoedd o filltiroedd ar draws y moroedd, heb na phenryn nac ynys nac arfordir o fath yn y byd i ddangos y ffordd iddynt.

Y mae mwy nag un math o ymfudo ymysg yr adar. Ceir ymhlith rhai , symudiadau gweddol leol, o'r bryniau i'r gwastadedd, dyweder, neu o diriogaeth y nythod, i grwydro'r wlad yn heidiau. Yn y gaeaf gwelwn yng Nghymru y llinos a'r asgell fraith, a'r penfelyn, yn crwydro'n heidiau o wrych i wrych, yn trydar yn fywiog ac yn chwilio'n brysur am eu bwyd. Daw adar o dylwyth y ditw yn ôl at y tai ar ôl tymor y nythu i rwygo capiau'r poteli llefrith, i bigo'r briwsion oddi ar stepen y drws, ac ambell un beiddgar i falu'r papur oddiar waliau'r ystafelloedd.

Mynd ar wasgar a wna eraill yn y gaeaf. Heidia adar y cefnfor, er engraifft, at eu gilydd ar graig gyfleus i nythu yn yr haf, ond yna ant ar wasgar dros y moroedd maith. Soniwyd mewn ysgrif flaenorol am gywion y pâl a'r ffwlmar yn gallu crwydro ar draws yr Atlantic yn eu blwyddyn gyntaf. Gall y mudo hwn fod i unrhyw gyfeiriad, fel y gwelsom yn hanes y ffwlmar – rhai'n mynd am y gogledd, ac eraill i gyfeiriad y de. Ant lle bynnag y bydd bwyd i'w gael, ac nid oes a wnelo oerni a gwres fawr ddim a'r peth.

Ond y symud mwyaf cyffredin yn hanes yr adar yw'r mudo o'r gogledd i'r de yn y gaeaf, a'r mudo'n ôl yn yr haf. Dyma'r math o fudo a geir yn hanes y mwyafrif mawr o'r adar a welwn ym Mhrydain. Daw llawer yma o wledydd cynhesach i nythu yn yr haf; daw eraill yma o'r gogledd yn y gaeaf oherwydd fod y lle y

nythant ynddo yn rhy oer iddynt i aros yno; ac y mae eraill nas gwelwn ond ar eu taith i lawr am y de yn yr hydref, neu'n ôl am y gogledd yn y gwanwyn.

Ymae ynysoedd Prydain mewn safle ffafriol dros ben i bwrpas astudio adar oherwydd eu bod yn gorwedd ar ganol un o lwybrau prysuraf yr ymfudo blynyddol. I lawr glannau gorllewin Ewrop eheda'r ymfudwyr yn eu miliynnau bob hydref, yn chwilio am le cynhesach i dreulio'r gaeaf. Daw rhai o Norwy a Sweden, ac ant i lawr arfordir dwyreiniol Prydain; daw eraill o Greenland ac Ynysoedd yr Ia, a'r Faroes, ac ehedant heibio i ynysoedd gorllewin yr Alban, ac am Gymru a Chernyw, neu crwydrant i lawr glannau gorllewinol yr Iwerddon. Daw eraill wedyn o'r Almaen a Denmarc, ac ymuno yng Nghaint â'r ymfudwyr o Norwy, a'u dilyn ar hyd glannau deheuol Lloegr cyn ymadael am Ffrainc a Sbaen, a gogledd Affrica. Rhydd hyn oll gyfle i'r adarydd ym Mhrydain i astudio gwahanol fathau o adar ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Yn wir nid oes un mis yn y flwyddyn nad oes rhywbeth o ddiddordeb i'w weld a'i astudio.

Arferid dosbarthu'r adar ym Mhrydain yn ymfudwyr ac yn breswylwyr. (*migrants* a *residents*) Ymfudwyr yn ddiau yw'r gog a'r wennol. Dont yma yn yr haf; nis gwelwn fyth yn y gaeaf. Ac ymfudwr hefyd yw'r sogiar (*fieldfare*). Daw ef yma yn y gaeaf am ei bod yn gynhesach yng Nghymru nag yn Lapland neu Norwy lle y bu'n nythu yn yr haf. Gwelir ef yn un haid fawr, yn chwilio am ffrwythau a hadau a phryfed, ambell dro yn gymysg â haid o'r ddrudwen. Nid yw byth yn aros ym Mhrydain i nythu, ac felly ymfudwr pendant ydyw, fel y gog a'r wennol a thelor yr hesg a'r siff-saff a'r ddryw wen. Daw yma i gymryd eu lle hwy pan ymadawant yn yr hydref am Ogledd Affrica.

Preswylwyr ar y llaw arall, yw'r penfelyn  a'r asgell fraith, y ddryw eurben a'r gwahanol fathau o ditw. Gadawant ardaloedd eu nythod, a chrwydrant yn heidiau o amgylch y wlad, neu ymwelant a'r tai a'r strydoedd, ond nid ydynt byth yn ymfudo i wlad arall.

Ond nid yw'r sefyllfa mor syml â hyn gyda llawer o adar. Y ddrudwen er engraifft. Nid oes sicrwydd fod un ohonynt hwy yn ymfudo o Brydain. Pob un a fydd yma'n nythu, yma yr erys dros y gaeaf. Ond daw rhai ohonynt i Brydain yn yr hydref o ogledd Ewrop i dreulio'r gaeaf. Gall y ddrudwen a welwn yn ystod misoedd y gaeaf, felly, fod yn ymfudwr neu'n breswylydd.

Y mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth fyth gyda'r robin goch. Arferid tybio erstalwm nad oedd yr un robin yn ymfudo, ond dangosodd astudiaethau manwl rhai fel David Lack fod hyn yn anghywir. Mor bell yn ôl â 1913 cafwyd o hyd i gyw y

rhoddwyd modrwy ar ei goes yn swydd Stafford, wedi ymfudo i ddeheudir Ffrainc. Deuthpwyd o hyd i un arall yn yr Iseldiroedd ym 1914, a chafwyd rhai yn Ffrainc ym 1933 a 1938, ac mor bell â Sbaen a'r Eidal a Phortiwgal rhwng 1953 a 1957. Dengys hyn fod lleiafrif bychan, o leiaf, yn ymfudo. A chadarnheir y peth gan y dybiaeth fod y robin o Brydain yn ymwelydd cyson bob hydref ag arfordir Normandi. Dywedir fod yn bosibl ei adnabod oherwydd fod ei gân yn llawnach na chân y robin brodorol. Y mae'n eithaf posibl mai ar eu ffordd i ddeheudir Ffrainc neu Sbaen y mae'r adar hyn.

Darganfu David Lack fod gwahaniaeth mawr rhwng ceiliog y robin goch a'r iâr yn y mater o grwydro. Y mae bron pob ceiliog, wedi iddo sicrhau tiriogaeth, yn aros yn ei unfan am weddill ei oes. Ond y mae'n agos i dri chwarter yr ieir yn diflannu o ardal y nyth ar ôl tymor y magu. Crwydrant y wlad yn ystod y gaeaf, ac ychydig iawn ohonynt a ddychwel i'r un ardal yn y gwanwyn. Ond ni chrwydra'r rhan fwyaf ohonynt ymhell. Yn ôl arbrofion David Lack, lleiafrif bychan iawn sy'n mudo ymhellach nag ychydig filltiroedd.

Y mae un dosbarth arall o adar, sef y rhai sy'n pasio heibio ( passage migrants ) Nid ydynt yn nythu gyda ni ac ni arhosant yma dros y gaeaf. Nis gwelwn ond ar eu ffordd yn yr hydref a'r gwanwyn. Gwnant eu nyth i'r gogledd i Brydain, a threuliant y gaeaf mewn gwlad gynhesach.

Nid oes llawer o adar yn perthyn yn gyfangwbl i'r dosbarth hwn. Y corbibydd (curlew sandpiper ) yw'r engraifft gorau yng Nghymru efallai. Dyma un o adar bach y tywod na welir ond ar ei daith i'r de yn niwedd haf a dechrau hydref, ac ar ei daith yn ôl i'r gogledd yn y gwanwyn. A dyma drafaeliwr pell! Gwna ei nyth i fyny yn yr arctic, ond erbyn canol y gaeaf bydd efallai wedi croesi'r gyhydedd ac wedi cyrraedd India neu Awstralia, neu Dde Affrica, neu waelod De America.

*"Di-ofal yw'r aderyn,*
*Ni hau, ni fed un gronyn,"*

medd yr hen bennill, ond dyma aderyn a all dreulio'r gaeaf yn mwynhau cynhesrwydd, ac yn gweld y byd, heb orfod talu'n ddrud am fordaith ar long!

Ar hyd y glannau dwyreiniol i Brydain yr â y rhan fwyaf o'r adar hyn wrth ymfudo, ond yn niwedd haf ac yn nechrau hydref, gellir gweld rhai ohonynt ar eu taith i'r de ar lannau môr Cymru.

Anodd yw gwahaniaethu rhyngddynt a llygad yr ych, y mwyaf poblog o adar bach y tywod a fydd gyda ni drwy'r gaeaf. Gwelais rhyw chwe chant ohonynt hwy yn haid fawr ar dywod Menai ddechrau Rhagfyr, yn prysur chwilio am eu bwyd, ac yn gwthio eu pigau duon yn ddyfn i'r tywod ar ymyl y dŵr. A phan godent yn un cwmwl trefnus, rhyfeddais eto at eu dawn i gadw gyda'u gilydd, a hwythau'n gwibio ac yn cylchdroi mor gyflym. Golygfa fendigedig ar ddiwrnod llwyd yn y gaeaf yw gweld haid fel hyn yn hedfan, yn awr yn gwmwl du ac yna'n sydyn, wedi iddynt droi, a dangos eu boliau, yn gwmwl gwyn sidanaidd.

Heidio gyda'u gilydd, a chylchdroi'n drefnus, a wna'r corbibyddion hefyd, a dyna un ffordd o wahaniaethu rhyngddynt â phibydd y dorlan (*common sandpiper*) nad yw'n hoff o heidio, ond geir fel arfer mewn cwmnioedd bychan. Ond sut i wahaniaethu rhyngddynt â llygad yr ych? Yn aml yn yr hydref gwelir y ddau aderyn yn gymysg a'u gilydd yn un haid, ac efallai rai o'r morhedydd gyda hwy hefyd. Ac y mae'r ddau'n debyg iawn u'w gilydd mewn maint – rhyw saith modfedd o hyd; ac mewn lliw – rhyw lwyd uwchben a gwyn odditanodd. Y mae pig y corbibydd yn troi mwy ar i lawr nag un llygad yr ych, ond nid yw hyn bob amser yn ffordd ddiogel o wahaniaethu rhyngddynt. Y ffordd sicraf yw sylwi ar eu cynffon, yn arbennig wrth iddynt hedfan – y mae rhan uchaf cynffon y corbibydd yn berffaith wyn.

Yn ôl llyfr Fisher, "Bird Recognition," aderyn yn pasio heibio yw'r goeswerdd hefyd, o safbwynt Cymru. Y mae'r rhan fwyaf ohonynt hwy yn nythu yng ngogledd Ewrop a Rwsia, ond ceir rhai yn nythu yn yr Alban, ac yn ôl Fisher, anaml iawn yr arhosant ym Mhrydain dros y gaeaf. Ond gwelais amryw ohonynt ar lannau Môn ac Arfon ym mis Rhagfyr a Ionawr, yn pigo'n brysur yn y tywod, neu'n sefyll yn berffaith lonydd ar un troed mewn pwll yn ymyl y môr pan fo'r llanw i mewn. Y maent ychydig yn dalach na'r goesgoch, ac yn oleuach, a'u pig yn tueddu i droi ychydig ar i fyny. Ar lawr ac yn yr awyr edrychant yn adar gosgeiddig a bonheddig.

Ymysg eraill o adar y tywod, erys rhai ohonynt gyda ni dros y gaeaf, ac eraill o'r un rhywogaeth yn pasio heibio am wledydd cynhesach. Dyna hutan y dŵr, y soniais amdani yn yr ail ysgrif. Tybiais pan welais hi gyntaf ei bod ar ei thaith i Fôr y Canoldir, ond yn ddiweddar gwelais rai'n hedfan yng nghanol haid o lygad yr ych neu o'r corhedydd. ( hawdd eu hadnabod oherwydd y patrwm trawiadol ar eu cefnau – dwy streipen wen ar hyd pob asgell )

A dyna'r ddwy rostog (*godwits*). Nid ydynt yn nythu ym Mhrydain, ond erys rhai ohonynt yma dros y gaeaf. Ers tua hanner canrif, y mae'r rhostog

gynffonddu ar gynnydd ym Mhrydain, ac y mae mwy ohonynt yn tueddu i aros dros y gaeaf, a rhai nad ydynt yn nythu, yn aros dros yr haf hefyd. Tua can mlynedd yn ôl yr oedd yn arfer nythu yn nwyrain Lloegr, ac yn ddiweddar nythodd un yn swydd Lincoln. Erys rhai o'r rhostog goch (*bar-tailed*) ym Mhrydain dros yr haf hefyd, ond nid oes sicrwydd iddi erioed nythu yma. Y mae hi'n fwy poblog yma  na'r gynffonddu yn ystod y gaeaf, ond ar eu taith y gwelwn y rhan fwyaf ohonynt, taith fydd yn mynd â hwy i lawr i Fôr y Canoldir, ac ar ei hyd at y Môr Coch, ac i lawr efallai cyn belled ag Aden.



Tybed oedd Harri Williams yn gyfarwydd â phibydd y tywod Llun Alun Williams

Soniais lawer yn yr ysgrif hon am adar y tywod, ac mai yn eu plith hwy y gellir hawsaf wylio ac astudio'r ymfudo blynyddol. Y mae pawb ym Mhrydain sy'n byw yn weddol agos at lannau'r môr a'r aberoedd llydain, tywodlyd, yn ffodus iawn fod cynifer o'r adar hyn yn ymyl. Yn wir, y mae Prydain oll yn ffodus yn hyn o beth. Darllenais lyfr rywdro gan adarwr o'r Swistir, a synnais ddeall nad oedd yn y wlad honno ond tri math o adar y tywod, y gylfinir, y giach (*snipe*) [nid ydym yn cysylltu'r giach â thywod yn arbennig (Gol.)] a'r gornchwiglen. Ond ym Mhrydain, oherwydd ei safle ar lannau gorllewinol Ewrop, ac ar ganol llwybr prysur yr ymfudo mawr blynyddol, ceir nifer helaeth o'r math yma o adar – fwy o lawer nag a ellid ei ddisgwyl mewn tiriogaeth mor fychan.

Paham y mae'r adar yn ymfudo? Mae'n haws ateb y cwestiwn hwn na'r cwestiwn <u>sut</u> y maent yn ymfudo. Er fod llawer o'r adar yn colli eu ffordd mewn niwl a stormydd, ac yn marw o flinder a lludded, ar y cyfan y mae'r ymfudo yn llwyddiannus, ac y mae iddo lawer o fanteision biolegol.

Y mae pawb yn gallu sylwi fod yr adar yn greaduriaid bywiog a phrysur dros ben. Y ditw yn gwneud campau ar y gangen, y wennol yn gwibio'n barhaus drwy'r awyr, y robin yn neidio dros y pridd, a llygad yr ych yn trotian ac yn pigo ar y tywod yn ymyl y môr – dyma'r hyn sy'n nodweddiadol o'r adar; eu hymchwil prysur a di-baid am fwyd. Y mae gwres corff yr aderyn yn eithriadol o uchel, rhwng 104$^{o}$ a 113$^{o}$ F, ac oherwydd hynny, ni all fyw'n hir heb ddigonedd o fwyd. Ni all fynd i gysgu dros y gaeaf fel rhai o'r mamaliaid, ac nid oes ond

ambell aderyn, fel cnocell y coed a'r ditw, yn storio bwyd dros y gaeaf. Rhaid iddo felly fod wrthi'n barhaus yn chwilio am fwyd, ac yn arbennig yn y gaeaf, a'r dydd yn fyr, a'r tywydd yn oer.

Sylwais droeon pan fo'r môr yn dyfod i mewn, fel y mae'r adar yn heidio ar y mymryn olaf o dywod sydd yn y golwg cyn i'r môr ei orchuddio, ac yn heidio i'r un fan drachefn pan fo'r môr yn mynd allan. Problem i'r adar hyn yw cael digon o amser i hela'u bwyd ar ddiwrnod tywyll os bydd y môr i mewn yn ystod y dydd. Gwelwn yma eto mor bwysig yw bwyd mewn penderfynnu ymarweddiad yr adar, a cheisiwn ddyfod yn awr at ateb i'r cwestiwn a godwyd; paham y mae adar yn mudo.

*"Eisteddant yn rhes*
*Ar wifren y telegraff……*
*Mae rhywbeth yn galw –*
*Crynant, edrychant yn graff"*


medd T. Gwynn Jones am y gwenoliaid. Ond beth sydd yn galw?

Y mae rhai o'r adar yn sicr yn mudo er mwyn cadw yn y gwres sydd briodol iddynt. Daw'r wennol a'r gog i'n gwlad ni oherwydd ei bod yn rhy boeth iddynt yn ymyl y gyhydedd yn yr haf, ac ant yn ôl am ei fod yn rhy oer iddynt yn y gaeaf.

Ond yr angen am fwyd sy'n peri i'r rhan fwyaf o'r adar fudo. Â llawer ohonynt i'r arctic i nythu yn yr haf am fod yno gyflenwad o bryfed wedi i'r rhew feirioli, ac am fod y diwrnod ar ei hyd yn olau, a phedair-awr- ar-hugain bob dydd o amser i'r rhieni hel bwyd iddynt hwy eu hunain ac i'w cywion. Ac yn y trofannau y mae llawer o'r adar yn mudo, nid er mwyn osgoi gwres eithafol, ond er mwyn osgoi sychder eithafol. Dilynant y glaw a'r glybaniaeth, oherwydd, felly yn unig y gallant sicrhau ardal ffrwythlon lle y bydd digonedd o ymborth.

Ond nid ydym eto wedi ymdrin â holl broblemau mudo, a rhaid eu ystyried yn yr ysgrif nesaf.

# 8. COG




Byddai Harri wrth ei fodd gyda'r gyfrol hon

Ychydig flynyddoedd yn ôl, ar brynhawn heulog yn nechrau haf, yr oeddwn yn gorwedd ar y glaswellt o flaen y tŷ, pan welais aderyn yn gwibio i mewn I ganghennau'r ywen yng ngwaelod yr ardd. Codais ar unwaith, ac euthum I chwilio. Oedd yr oedd yno nyth; nyth siani lwyd. Yr oedd yn rhy uchel imi weld I mewn iddo, ond rhoddais fy llaw ynddo, a mwynheais deimlad cynnes yr wyau yn fy mysedd. Euthum i gael cadair, a sefais arni ac edrych i mewn i'r nyth. Ni allwn dderbyn am foment dystiolaeth fy llygaid. Gwelwn o'm blaen bedwar ŵy glas, yn adlewyrchiad o lesni clir y nen yng nghanol llwydni'r nyth a'r canghennau, ac un ŵy arall yn eu canol, yn fwy ei faint ac yn llwydaidd ei liw, gyda sbotiau drosto. Dyma rywbeth nas gwelswn erioed o'r blaen, ac nis gwelais byth wedyn. Rhuthrais i hysbysu fy nheulu, a'm cymdogion, a daethant yn llu i weld y rhyfeddod prin.

Y gog, wrth gwrs, oedd wedi dodwy'r ŵy dieithr yn y nyth. Dyma'r paraseit enwocaf o blith yr holl adar. Nid yw byth yn gwneud nyth ei hun, a gedy'r gwaith o fagu ei gywion i adar eraill. Yn y wlad hon, defnyddia fel arfer nyth y siani lwyd a'r ehedydd bach, a dyna paham y geilw'r Cymro y ddau aderyn yma weithiau yn "was y gog". Y robin goch, y sigl-i-gwt, telor yr hesg, - dyna rai eraill o'r adar y gall eu nythod fod yn fagwrfa i gyw'r gog.

Edrychais ymlaen at wylied pethau'n datblygu yn y nyth, ond ymhen deuddydd diflannodd yr wyau i gyd. Efallai i ormod o'r cymdogion ymweld â'r nyth, ac i rai ohonom fod yn flêr yn gadael y canghennau heb eu rhoi'n ôl yn eu lle, ac i

**Ydi'r gog yn ceisio copio lliw wy ei letywr?**
Dyma Nick Davies:

*Why is the dunnock race of cuckoo unique among the European cuckoo races in showing no mimicry of the host eggs? The answer is clear. It's because dunnocks are the only major host species to show no egg discrimination. Our experiments show that they will accept model eggs of any colour or pattern. We wondered if dunnocks simply had poor colour vision, or found it difficult to discern egg colour in the dense cover where they build their nests. Perhaps, in a dark nest, the dunnock's own blue eggs and the various model eggs all appeared a similar shade of grey? Therefore we tested them with white or black model eggs, which were clearly different in shade, but they accepted these too. Dunnocks even accepted whole clutches of model eggs unlike their own, so their acceptance of a single model egg was not simply because they regarded it as a harmless lump of resin.*

*Our results with the dunnock, the odd one out among the cuckoo's favourite hosts in Europe, are illuminating. They show that a cuckoo race evolves a mimetic egg only when its host is discriminating. Ildunnocks ever did begin to reject badly match-ing eggs, then we can he sure that their cuckoos could respond by evolving egg mimicry. ....*

hynny ddangos y ffordd i lygoden fawr i gael at yr wyau. Neu efallai i leidr ar ddeudroed eu lladrata! Nid wyf y gwybod. Ond gwn i mi golli cyfle, na ddaw i ddyn yn aml, i sylwi'n fanwl ac yn gyfleus ar ddatblygiadau mewn nyth lle gosodir ŵy'r gog. Yn ffodus, y mae eraill wedi cael y cyfle i sylwi, ac wedi disgrifio'n fanwl, ac hyd yn oed wedi tynnu lluniau o'r hyn a ddigwydd.

Y mae miloedd o'r rhai a glywodd y gog, heb ei gweld erioed. Hoffa lechu mewn coed mawr deiliog, yn canu ac yn gwylied yr adar eraill yn nythu. Yn yr awyr, edrych yn debyg i gudyll coch, yn hedfan yn gryf, a'i chynffon yn treulio'n hir ytu ôl i'w hesgyll. Gellir ei hadnabod yn sefyll oddi wrth ei chefn lwydlas, a'i brest yn wyn gyda streipiau tywyll ar ei draws. Y mae pawb yn adnabod ei chân, ac yn hoffi clywed y ddau nodyn yn y gwanwyn. Ond nid hyfryd mo'r gân i'r rhai sy'n ei chlywed yn ymyl o'u gwely bob ben bore ym mis Mai! Y ceiliog yn unig, gyda llaw, fydd yn canu'r ddau nodyn adnabyddus. Rhyw fwrlwm anhynod ac amrwd yw'r sŵn a wna'r iâr.

O flaen ein tŷ yr oedd tair ffawydden nobl, ac yn y rhain yr hoffai'r gog lechu, a chanu'n undonnog am awr neu ddwy bob dydd yn nechrau'r haf. Ac wrth lechu yno, y mae'n rhaid, y sylwodd ar y siani lwyd yn prysur wneud ei nyth yn yr ywen. A phan ddaeth yr adeg priodol, yn union wedi i'r siani lwyd ddodwy ei hwyau, diau iddi ddisgyn yn dawel o'r goeden a dodwy ei hŵy hithau yn y nyth. Ŵy bychan ydyw, a chofio maint y gog ei hun, ac ni chymer ond pum eiliad i'w ddodwy, fel nad yw'r ymweliad â'r nyth yn un maith.

Dywed rhai iddynt weld y gog yn dodwy'r ŵy ar y llawr, ac yn ei gludo i'r nyth yn ei phig, ac efallai fod hyn yn digwydd lle y mae'r nyth yn anodd cael ato. Ond y mae'r adarwyr yn tueddu i amau hyn. ( James Fisher, er engraifft ) Y mae'r gog fodd bynnag, yn cludo ymaith yn ei phig un o'r wyau o'r nyth. Y mae greddf neu gallineb yn dweud wrthi fod gwell gobaith i'r aderyn beidio â digio, os gwêl yr un nifer o wyau yn y nyth ag oedd yno cynt! Ond y mae yn digio ambell dro, yn gadael y nyth, ac yn adeiladu un arall. Neu efallai y llwydda i wthio'r ŵy dieithr o'r nyth.

Gall un gog ddodwy tua pymtheg o wyau mewn tymor, ac fe'u gesyd mewn nythod gwahanol wrth gwrs. Ond y ffaith drawiadol yw mai yn yr un math o nyth y gesyd y gog yr ŵy bob tro, a hwnnw'r math o nyth y'i magwyd hithau ynddo. Hynny yw, os mewn nyth ehedydd bach y magwyd gog arbennig, yn nyth ehedydd bach y rhydd hithau ei hŵy bob tro. A dyma ryfeddod arall – y mae ŵy'r gog yn tueddu i ymdebygu i ŵy'r ehedydd bach. Mewn gwirionedd, felly, y mae llawer math o gogau; cog siani lwyd, cog ehedydd bach, cog robin

goch, ac yn y blaen. A phob cog yn dodwy ei hŵy mewn un math arbennig o nyth, a'r ŵy'n ymdebygu i ŵy perchennog y nyth hwnnw. Pe bai'r ŵy a welais i wedi deor, a'r cyw wedi llwyddo i gadw'n fyw, diau y byddai ef yn dychwelyd atom i'r coed ffawydd bob gwanwyn, ac os iâr fyddai, yn parhau i ddodwy wyau yn nythod siani lwyd yr ardal.

Y rhyfeddod nesaf – ac y mae hanes y gog yn llawn rhyfeddodau – yw'r hyn a ddigwydd yn y nyth pan ddaw'r amser i'r ŵy ddeor. Nid mater o ddyfalu yw hyn, bellach oherwydd y mae'r cwbl wedi ei ddisgrifio'n fanwl gan adarwyr a fu'n gwylio'r peth, ac wedi ei ddarlunio gyda'r camera yn hynod o lwyddiannus gan rai fel Eric Hosking.

Ŵy'r gog, fel arfer, yw'r cyntaf yn y nyth i ddeor. Y mae'r cyw yn greadur digon bychan ar y dechrau, ond y mae ei groen yn hynod sensitif. Y mae'n gas ganddo deimlo dim yn pwyso yn ei erbyn. Ac er ei fod yn noeth ac yn ddall, ac yn edrych yn ddigon diymadferth, gall wthio'r wyau, neu'r cywion eraill, dros ymyl y nyth, a sicrhau'r lle a sylw'r rhieni yn gyfangwbl iddo'i hun.

Y mae lluniau Eric Hosking o'r hyn a ddigwydd yn werth eu gweld (y mae ffilm-strip ohonynt i'w gael). Wrth i'r cyw wingo'n aflonydd yng waelod y nyth, y mae un o'r wyau yn cyffwrdd â'i gefn – y rhan fwyaf sensitif ohono – ac ar unwaith sytha drwyddo. Y mae'n bwrw ei big i waelod y nyth, a chan gludo'r ŵy yn y pant ar ei gefn rhwng ei ddwy adain, y mae'n ei wthio'i hun wysg ei gefn i fyny'r ochr ac yn rhoi hwb sydyn nes bwrw'r baich dros ymyl y nyth. Ac yn y ffordd yma, llwydda i wagio'r nyth. Nid yw'r rhieni'n poeni dim am yr wyau, neu'r cywion, y tu allan, ond bodlonant ar fwrw'r bwyd a gasglant i lawr y gwddf mawr, melyn a welant yn y nyth.

Y mae'r cyw'n tyfu'n gyflym, a'i chwant am fwyd yn anniwall, ac ymhen llai na phythefnos y mae'n llenwi'r nyth. Ymhen pythefnos arall, gedy'r nyth, ond er ei fod erbyn hyn yn fwy o lawer na'r rhieni, y maent hwy'n parhau i'w fwydo. Gwelir hwy weithiau'n gorfod neidio ar ei gefn er mwyn cyrraedd ei big, neu'n ceisio hofran yn yr awyr o'i flaen. Ac y mae dylanwad ei gri gwichlyd a di-baid mor gryf a hudolus fel y gwelir yn aml adar eraill yn ymuno yn y gorchwyl o fwydo.

Eithr digwydd y rhyfeddod pennaf yn hanes y gog yn nechrau hydref. Y mae'r rhieni wedi ymadael ers tro, ac wedi ymfudo i Affrica. Tawodd eu cân ers diwedd Mehefin, ac ymadawsant ym mis Gorffennaf, gan lwyr ddiystyrru eu hepil eu hunain. Y maent hwy'n cael eu magu a'u bwydo gan rieni–maeth, a

thyfant yn gyflym, ac efallai y ceir ambell un ohonynt yn taro dau nodyn cyfarwydd y gog yn niwedd haf. Dyna'r esboniad am yr eithriadau prin pan glywir cân y gog ym mis Medi.

Ond yn sydyn, daw'r alwad o rywle i'r cywion hefyd i ymfudo i wlad gynhesach. A dyna'r rhyfeddod: eu bod yn gwybod i ble i fynd heb erioed hedfan y ffordd honno o'r blaen, ac heb fymryn o gyfarwyddyd gan rai hŷn. Y mae hyn yn ychwanegu at y dirgelwch mawr yng nglŷn â'r mudo ymlith yr adar. Ac y mae'r arbenigwyr i gyd yn gorfod cyfaddef nad oes ganddynt esboniad boddhaol ar y dirgelwch.

Erbyn heddiw gwelwyd nad yw'r hyn a ddigwydd yn hanes y gog mor eithriadol ag y tybid. Y mae cywion y rhan fwyaf o'r adar sy'n nythu yn y gogledd yn ymfudo ar eu pennau eu hunain, heb gwmni a chyfarwyddyd y rhieni. Ond y maent hwy, yn wahanol i'r gog, yn ymfudo o flaen y rhieni. Ac fel cywion y gog, gwyddant y ffordd, ac ni ŵyr neb sut na phaham. Fel y dywaid T. Gwynn Jones am y gwenoliaid; " Di- arwydd oedd ffordd pob teithiwr/Ond edwyn pob un ei le"

Er mwyn gwneud yn sicr fod cywion yn llwyddo i gyrraedd pen eu taith heb arweiniad adar hŷn, gwnaed arbrawf yn Rossitten, y ganolfan adar enwog yn yr Almaen. Cymerwyd tua deugain o gywion y ciconia *(stork* ) o'u nythod cyn iddynt hedfan, a magwyd hwy yn y ganolfan. Cadwyd hwy yno nes i'r holl adar hŷn fudo, ac yna gollyngwyd hwy'n rhydd. Yn ddiymdroi, cychwynasant i gyd ar eu taith i'r de; gwyddent eu bod i ymfudo, a gwyddent yn berffaith i ba gyfeiriad I fynd. Dengys hyn fod y cymelliad i ymfudo, a'r ddawn i ymfudo, yn gynhenid yn yr adar. Mawr yn wir yw dirgelwch ymfudo!

Gwnaed llawer o arbrofion i geisio cysylltu'r cymhelliad i ymfudo â rhyw ran arbennig o gyfansoddiad yr adar. Tybiwyd fod a wnelo rhyw â'r peth, ac yn Rossitten, tynnwyd organau rhywiol rhai o'r adar; ond er hynny, yr oeddynt yn ymfudo fel o'r blaen. Bu arbrawf yn America yn fwy llwyddiannus. Cymerwyd cywion oedd ar fin ymfudo, a rhoddwyd golau trydan yn eu cewyll am hyn a hyn o oriau bob dydd, yn cyfateb i olau dydd yn nechrau'r gwanwyn, gan ychwanegu ychydig o funudau fesul diwrnod. Diflannodd yr awydd i ymfudo yn eu plith, datblygodd yr organau rhywiol er nad oedd ond canol gaeaf, a dechreuodd wyau ymffurfio yn yr ieir. Yna, yn y gwanwyn, cymerwyd adar oedd newydd ddychwelyd o'r de, a rhoddwyd golau yn eu cewyll hwy i gyfateb i'r byrhau yn hyd y dyddiau yn niwedd haf. Gollyngwyd hwy yn rhydd, a diflanodd pob un o'r ardal. Ond ni ddarganfu neb i ble yr aethant. Awgrymir

gan hyn oll fod yr hormonau sydd yn cyffroi'r organau rhywiol yn cymell hefyd yr awydd i fudo. Y mae'r holl bwnc yn un cymhleth dros ben, ac heblaw'r organau rhywiol, y mae a wnelo oerni a gwres a'r angen am fwyd, a'r peth, fel y gwelsom yn yr ysgrif ddiwethaf. Ond ymddengys mai yn ôl yr almanac, ac nid yn ôl y tywydd neu'r cyflenwad bwyd, y mae'r adar yn cael eu cymell I ymfudo. Gedy'r rhan fwyaf ohonynt y gogledd pell cyn i oerni llym y gaeaf  gyrraedd, a chyn i'r bwyd fynd yn brin. Gadawant pan fo'r coed a'r perthi'n llawn ffrwyth a hadau, a'r awel yn llawn gwybed. Fe all oerni sydyn, neu wres sydyn, effeithio ryw gymaint ar y cymhelliad i fudo, ond ychydig iawn o wahaniaeth a wna hyn, ac y mae'r rhan fwyaf yn mudo cyn iddynt orfod fudo. Eto i gyd, onibai eu bod yn mudo y pryd hynny, trengi a wnaent ymhen ychydig wythnosau. Ac y mae hyn yn awgrymu fod rhyw stôr enfawr o wybodaeth a phrofiad yn cael ei etifeddu'n ddiymwybodol gan yr adar o'r gorffennol pell – stôr a gasglwyd yn ystod canrifoedd di-rif o fyw, a brwydro i gadw'n fyw, yn erbyn elfennau di-dostur a gelyniaethus y greadigaeth. Casglwyd y wybodaeth a'r profiad gan yr adar a lwyddodd i gadw'n fyw, ac aeth rywfodd ymhen canrifoedd ar ganrifoedd yn rhan o gyfansoddiad yr hil, a throsglwyddwyd ef i lawr o genhedlaeth I genhedlaeth. Fel mai anodd erbyn hyn yw bodlonni ar alw'r mudo yn arferiad yn unig. Y mae'n fwy nag arferiad. Odid na ddylem yn awr ei alw'n reddf.

## 9. CLOI

Erbyn hyn y mae'n ganol mis Mawrth, a'r gwanwyn yn prysur agosau. Ers wythnosau bu'r dresglen a'r fronfraith yn uchel eu cân yn y coed, a'r ditw tomos las yn gwibio drwy'r canghennau noeth, gyda'i nodau bach eiddil. Bythefnos yn ôl clywais yr asgell fraith yn rhoddi'r cynnig cyntaf ar bill o gân, ac echdoe clywais nodyn lleddf y llinos werdd, a chân hudolus y fwyalchen.

Bu Chwefror yn dyner wrthym eleni a cheir sôn yn y newyddiaduron am dresglen yn eistedd ar bedwar o wyau yng Nghaergeiliog yn Sir Fôn ers pythefnos, am wyau yn amryw o nythod y gigfran yn y Sir cyn diwedd Chwefror, ac am drochwr (*dipper*) yn ymyl Bae Colwyn yn adeiladu'i nyth ddechrau'r mis hwn.

Ymhen pythefnos, neu lai, byddaf yn disgwyl clywed dau nodyn y siff-saff o'r coed helyg, ac yn ei groesawu ef fel y cyntaf o'r mudwyr i gyrraedd ein gwlad. A daw llu o rai eraill eto eleni i'w ddilyn yn ystod mis Ebrill, "mis y mill a'r briallu," ys dywaid Richard Morgan, "mis gwyn y ddraenen ddu, a mis difyr yr adar.

Bu'r misoedd diwethaf hefyd i mi yn fisoedd "difyr yr adar." Daeth profiadau pleserus imi ynddynt, er mai misoedd oer a chelyd canol gaeaf oeddynt. Cofiaf yn arbennig am un prynhawn heulog yn nechrau Chwefror. Yr oedd y rhan fwyaf o Brydain ers dyddiau dan haen dew o fwrllwch budr, a minau ar lannau'r gorllewin yn mwynhau dyddiau o heulwen glân. Ac yng nghwmni cyfeillion hoff bum am dro yn Sir Fôn, a gweld ar gae yn ymyl y ffordd ger Niwbwrch, haid o chwilgorn y mynydd (*golden plover*) yn gymysg â'r cornchwiglod, yn prysur bigo'u bwyd o'r ddaear, ac yn edrych yn felyn odiaeth yn llewyrch yr haul. Galw wedyn i weld llyn bychan Penlon, a sylwi ar y corhwyaid (*teal*) a'r hwyaid llydanbig (*shoveler*) yn llechu yn yr hesg yn eu ymyl, a'r cotieir (*coots*) a'r gwyachod bach (*little grebes*) yn deifio'n brysur am eu bwyd, a chlamp o fulfran mawr yn stompio'n fler ar ganol y llyn a'i adenydd yn codi tonnau drosto i gyd.

Ac yna ymlaen am Gob Malltraeth, i chwilio am yr aderyn yr oeddym wedi darlle amdano yn y newyddiadur y bore hwnnw, ac aethom yn arbennig i gael golwg arno : yr hwyaden ddanheddog fronrudd (*red- breasted merganser*). Chwilio amdano ar y llyn, ond yn ofer. Nid oedd yno ond hanner dwsin o hwyaid yr eithin (*shell-ducks*) a thri alarch, a nifer o'r goesgoch a phiod y môr.

Edrych wedyn oddi ar y bont ar hyd yr afon a'r gamlas i gyfeiriad y rheilffordd, ond dim i'w weld yno ond ambell gwyach fechan yn diflannu i'r dŵr, ac yn codi'n ei hôl yn llawn hyfdra a hunan-hyder. Troi wedyn at ochr y môr i'r bont, dringo dros y wal, a cherdded at ymyl y tywod, a dilyn yr afon ychydig. Ac yn sydyn, ar y lan yr ochr draw i'r afon, gwelem aderyn, yn ddiwyd, ac eto'n hamddenol yn trwsio'i blu. Yn bwyllog ac yn araf, aethom yn nes ato, ac edrych arno drwy'r ysbienddrych, a sylwi â llawenydd sydyn ar y crib dwbl amlwg y tu ôl i'w ben, ac ar y llinell wen yn goler o amgylch ei wddf, ac yn gwahanu'r pen tywyll a'r fron ruddgoch. Yr hwyaden ddanheddog ydoedd, ac aethom mor agos ati ag y gallem; ond yr oedd yn rhy brysur, neu'n ddi –hid, i sylwi arnom. Gwelem ei chrib yn eglur yn awr, a'r plu gwasgarog yn ysgwyd wrth iddi ddefnyddio'i phig i'w glanhau a'i thrwsio'i hun. Yr oeddym yn awyddus i'w gweld ar y dŵr, ond ni symudai gam, er i ni guro dwylo, a gweiddi, a thaflu carreg i'w hymyl.

Gorfod troi nôl am y car, felly, a dringo at y bont, a neidio dros y wal i'r ffordd. A dyma droi i gael un golwg arall ar yr hwyaden, rhag ofn na welem un arall tebyg iddi am fisoedd, neu flynyddoedd efallai. A chwarae teg iddi! Gofalodd roddi golygfa fyth-gofiadwy inni cyn inni ymadael â hi. Yr oedd yr haul ar fin machlud, a'i lewyrch y melynnu'r afon i gyd. Ac yn y dŵr, ac eiliw'r haul yn gefndir euraid iddi, nofiai'r hwyaden ddanheddog yn urddasol, a'i ffurf osgeiddig yn hyfrydwch i lygad ac i enaid.

Edrychaf ymlaen at gael aml brofiad cyffelyb i hwn yn ystod y misoedd nesaf. Af am dro ymhen mis neu ddau i ymweld â'r hen rodfeydd ywchben y creigiau ar lannau'r môr, i sylwi eto ar y gwylogiaid a'r llursod, ac i weld a fydd y ffwlmariaid yn dychwelyd i'r un lleoedd eto, ac efallai meddiannu lleoedd newydd. Rhaid fydd chwilio am gwch, hefyd, I fynd am brynhawn i Ynys Seiriol I weld y pâl, a phwy ŵyr na chawn gyfle eleni i ymweld ag Ynys Enlli? Oddi yno gellir gweld y gan (*gannet*) yn disgyn o'r uchelder fel mellten i'r tonnau, ac yn plymio'n ddyfn am bysgod; ac yno hefyd gellir gweld adar - drycin Manaw (*Manx shearwater*) yn dychwelyd yn gyflym o'r môr, gan wibio ar hyd wyneb y dŵr, a siglo o'r naill ochr i'r llall. A bydd cyfle i ymweld â'r ganolfan arbennig I sylwi ar adar yn mudo, a gweld ambell aderyn dieithr fel y "*tanager*" o'r America a ddaliwyd yno ddwy flynedd yn ôl – y record cyntaf erioed o'r aderyn yn Ewrob. Ond bydd yn rhaid gofalu am ddiwrnod yn nechrau Mehefin i ymweld â Bae Cemlyn i wylied y morwenoliaid (*terns*). Yr wyf yn edrych ymlaen yn arbennig at eu hastudio hwy eleni, a dysgu gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau ohonynt. A cheir unman gwell na Sir Fôn i'r pwrpas hwnnw.

Tua diwedd mis Mai y bydd y forwennol gyffredin yn cyrraedd glannau'r ynys, ac fe'i gwelir gyda'i chap du, ei phig coch a du, ei chynffon fforchiog, a'i hadenydd hirfain, yn hedfan yn bwyllog uwchben y môr, ac yn disgyn yn sydyn i'r dŵr i ddal pysgodyn. Gwelir hon o amgylch glannau Cymru i gyd, ond daw'n amlach i'r gogledd, ac y mae'n arbennig o hoff o Sir Fôn. Ar y 27ain o Fai y llynedd yr oeddwn ym Mae Cemlyn, a gwelais ddwy wedi cymharu, yn hynod o ddof ar y gro yng nghwmni'u gilydd, ac yn caniatau inni fynd o fewn ychydig droedfeddi iddynt. Gwahanol iawn oedd pethau pan aethom yno ddiwedd Mehefin; y tro hwn ni chaem fynd yn agos at y gro, lle'r oedd nythod y morwenoliaid. Ehedai'r adar uwch ein pennau, a bygwth disgyn arnom a'n pigo. Ond edrychaf ymlaen eleni at gael gweld rhai o'r morwenoliaid eraill: morwennol y gogledd (*arctic tern*), yn hynod o ffyrnig, a'i phig yn goch ar ei hyd; y bigddu (*sandwich tern*), y fwyaf o'r morwenoliaid, a'i phig yn ddu gyda blaen melyn, a mymryn o grib y tu ôl i'w phen; y wridog (*roseate tern*) gyda gwrid coch ar ei brest yn y gwanwyn, na cheir ond mil o barau yn nythu ym Mhrydain i gyd, a thua tri chant o'r rhain ym Môn; a'r forwennol fechan, ei phig yn felyn gyda blaen du, ac yn wahanol i'r lleill i gyd yn yr haf oherwydd y gwyn rhwng y pig a'r cap du. Daw, fe ddaw profiadau amrywiol a phleserus eto eleni, a chyfle i weld llawer o adar nas gwelais o'r blaen. O'r pedwar cant neu fwy o wahanol fathau o adar a geir ym Mhrydain, nid wyf i eto wedi gweld ond rhyw gant a deg. Ac o'r rhai hyn, gwelais tua wyth ar hugain am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yma. Byddaf yn eithaf bodlon os caf ychwanegu rhyw bymtheg arall at y cyfrif yn ystod y flwyddyn sydd o'm blaen.

Pan oedd yn ieuanc, ysgrifennodd Dr Charles Raven, y clerigwr a'r diwinydd enwog, ddau lyfr adar. Dywaid yn un ohonynt mai ei uchelgais cyntaf pan yn blentyn oedd bod yn Julius Caesar; ei ail uchelgais oedd meddiannu aderyn wedi'i stwffio; a'i drydydd oedd ysgrifennu llyfr ar adar. Ac yn naw oed, gyda'i chwaer, ysgrifennodd lyfr ar deulu o hwyaid oedd yn trigo yn eu gardd. Pan aeth yn ddisgybl i ysgol breswyl, gwaharddwyd iddo hel wyau adar, ac edrychid ar ei awydd i fynd am dro i'r wlad i chwilio am adar fel rhywbeth annheyrngar ac anfoesol. Er hynny i gyd, parhaodd ei ddiddordeb mewn adar, oherwydd, ys dywaid ef ei hun, fe'i ganwyd wedi gwirioni ar adar ("*I was born bird mad*")

Ac ni allaf innau ddiweddu'r ysgrifau hyn yn well na thrwy ategu'r hyn a ddywaid Raven, fod sylwi ar adar a'u hastudio yn hobi sydd yn agored i bawb, boed ddysgedig neu annysgedig, cyfoethog neu dlawd, ac yn un a rydd i ddyn adfywiad mewn corff ac ysbryd. Ni allwn oll fod yn feirdd, yn gerddorion neu'n arlunwyr, ond gallwn oll, drwy edrych ar adar y nefoedd, ddarganfod, medd Raven, yr hyn sy'n ysgogi pob artist, sef prydferthwch Duw. Ac wrth eu

gwylied, cawn ambell gip ar ddirgelwch bywyd, a rydd inni ymdeimlad o ostyngeiddrwydd a pharch gerbron y greadigaeth, ac ambell brofiad pleserus a ddaw a hedd a chysur i enaid blin.



**Cydnabyddiaeth:**

Catrin Evans am drawsgrifio'r testun o'r llawysgrif gwreiddiol.

Teyrnged 'JTW' ar farwolaeth Harri Williams mewn papur newydd anhysbys o 1983.

Cyfrannwyr i'w dudalen ar Wicipedia

Y ffotograffwyr a gydnebir wrth eu lluniau (llun yr alarch gan Alun Williams)

**Duncan Brown (Golygydd Llên Natur ar ran Cymdeithas Edward Llwyd)**